# ECO'R WYDDFA

RHIF 18 MEDI 1977 Pris 10c


# CINIO YSGOL— Gwybodaeth newydd

**Mae Awdurdod Addysg Gwynedd am dynnu sylw rhieni at y ffaith fod rheolau newydd y Llywodraeth yn caniatau i incwm rhieni fod gryn dipyn yn uwch nag yn flaenorol cyn iddynt orfod talu'r pris newydd o 25c am ginio ysgol i'w plant sy'n dod i rym ddechrau'r tymor nesaf.**

O dan y raddfa incwm newydd, gall rhieni gyda thri o blant gael cinio ysgol am ddim iddynt i gyd os yw incwm y rhieni o dan £45.15 net (oddeutu £70 gros), o'i gymharu â'r lefel bresennol o £38.35 (oddeutu £51.50 gros), Gall rhieni gyda dau blentyn gael cinio am ddim i'r ddau ohonynt os yw'r incwm yn is na £39.75 (oddeutu £62.50 gros) o'i gymharu â £32.95 yn awr (oddeutu £44.50 gros); a rhieni gydag un plentyn os yw'r incwm yn llai na £34.35 (rhyw £61 gros) o'i gymharu â'r swm presennol o £27.55 (rhyw £40 gros).

TREULIAU ERAILL A ANWYBYDDIR

Anwybyddir hefyd rhai treuliau eraill ac ni chymerir i ystyriaeth holl incwm y teulu. Er enghraifft, mewn teulu un rhiant, ni chymerir i ystyriaeth y £6 cyntaf wrth weithio allan yr incwm net o'i gymharu â £4 o incwm y fam mewn teulu dau riant.

Mae rhieni sy'n derbyn Budd-iannau Atodol neu Atodiad Incwm Teulu yn gallu hawlio cinio am ddim i'w plant ond mae'n rhaid iddynt wneud y cais.

Gellir cael ffurflenni cais a thaflenni yn egluro'r rheolau o'r Swyddfeydd Addysg Rhanbarthol yn Llangefni, Llandudno, Caernarfon a Dolgellau, ac hefyd wedi i'r ysgolion ail-agor, oddi wrth y Prifathrawon.

# CEISIO CADW PRESWYLFA AR AGOR

**Oherwydd costau uchel cysylltiedig â chadw capeli, awgrymwyd ychydig fisoedd yn ôl gau drysau capel Methodistaidd Preswylfa, Llanberis. Nid oedd yr aelodau'n fodlon o gwbl ar y sefyllfa, ac mae trefniadau ar droed yn awr i geisio dod dros yr anawsterau. Gwahoddir aelodau a chyn-aelodau i ddod at ei gilydd i ymdrechu i godi arian i wynebu'r costau – er mwyn sicrhau y bydd drysau Capel Preswylfa yn dal ar agor.**

Adeiladwyd Capel Preswylfa Llanberis yn y flwyddyn 1882. Felly dethlir y canmlwyddiant ymhen pum mlynedd. Mae'r aelodau, yn enwedig y chwiorydd, yn gwneud ymdrech arbennig i'w gadw'n agored hyd y gellir. Mae ymateb eisoes wedi dod oddi wrth gyn-aelodau a chyfeillion eraill. Mae sôn am gau capeli yn gwneud aelodau yn ddifater yn aml, yn ysbrydol ac yn faterol, ac mae mwy o angen cyfrannu heddiw nag a fu erioed i gadw adeilad i fynd. Mae safle daearyddol Preswylfa yn ei gwneud yn bosibl i weld copa'r Wyddfa o'i bulpud ar ddiwrnod clir.

Mae tystiolaeth yn y gorffennol, ac felly yn awr, i ganu Preswylfa ysbrydoli pregethwyr a chynulleidfa i foliannu yr Arglwydd. Cerrig, coed a morter, meddwch. Ie, ond y pethau hyn wedi eu cysegru trwy fyfyrdodau, gweddïau a phrofiadau fel y garreg honno yn obennydd i Abraham, a'r ogof i Eleias. Mae angen ymröad o'r newydd mewn ffyddlondeb yma, gweithgarwch a chyfraniadau os am gyrraedd y nod. Gobeithio y byddwn yn parchu pob ymdrech i gadw ein haddoldai, a byddwn yn ddiolchgar am bob ffyddlondeb a chyfraniad fel y cawn gydaddoli eto yn y capel bach. "Nid ydynt hardd fy ffrind i chwi, / Ein hen addoldai mawr di-ri,/ Ond hwy a'n gwnaeth,/ O'r blychau hyn y daeth / ennaint ein doe a'n hechdoe ni".



**Fel yr ymdrech gyntaf i geisio llenwi'r coffrau cynhelir Noson Goffi ynghyd â "Bring & Buy" yn Festri Preswylfa am 6.30 nos Wener, Medi 30ain. Os oes gennych ddeunydd i'w werthu neu roddion, neu os ydych am fwy o fanylion cysylltwch â Miss J. Thomas, Bryn Aethwy, Llanberis, neu Miss J. Jones, Stryd y Ffynnon, Llanberis. Gall y cyn-aelodau gysylltu â'r chwiorydd hyn**

# Enillwyr Wrecsam



*Band Deiniolen a ddaeth yn ail yn eu cystadleuaeth yn Nosbarth C.*



*Mair Wyn Bennett o Lanberis. Arddangoswyd tri o'i lluniau yn yr Arddangosfa Celf a Chrefft.*



*Lowri Prys Williams o Frynrefail a ddaeth yn ail am gasgliad o ganeuon i blant rhwng 6 a 7 oed.*



*Dr. Eirwen Gwynn o Lanrug a ddaeth yn gyntaf am Stori Fer ac yn ail am y Fedal Ryddiaith. Arddangoswyd llun o'i gwaith yn yr Arddangosfa Celf a Chrefft.*



*Parti Annette a ddaeth yn 3ydd yn y gystadleuaeth Parti Can Werin dan 18 oed. Hyfforddwyd hwy gan Miss C.Williams, Summer Hill. Rhes ol o'r chwith i'r dde: Annette Roberts, Ruth Lennon, Julie Clark, Heather Roberts. Rhes flaen: Elaine Jones, Dilys Jones, Amanda Sellars, Eleri Elis. 'Roedd rhai eraill yn y parti nad ydynt yn y llun, sef Rhian Owen, Delyth Parry, Carys Jones a Carys Hughes*

*Llongyfarchiadau i Barti Dawns Greadigol Ysgol Brynrefail ar ddod yn ail. Cofiwn hefyd am lwyddiant y diweddar G. T. Roberts, Llanrug, a ddaeth yn gyntaf gyda'i gasgliad o Englynion Cerrig Beddau. Gweler 'Cofio cynbrifathro', tud. 12.*

# ECO'R WYDDFA

RHIF 18 MEDI 1977

Golygydd:
Arwel Jones,
Gwên-y-Wawr,
Glanffynnon,
Llanrug.
Ffôn: Caernarfon 3719

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd,
Nant Peris.

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*


**CYFRANIADAU**

Diolch i'r rhai canlynol am eu cyfraniadau: Di-enw – £1; Di-enw, Llanrug – £1; Ceinwen – £1

Llongyfarchiadau i holl ieuenctid y fro a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau.

**AT Y GOHEBWYR A CHYFRANWYR**

**Y deunydd i law'r golygydd erbyn MEDI 21. Daw'r rhifyn nesaf allan ar Fedi 29**

## PENISAR WAUN

**CYMORTHFA** – Bydd Dafydd Wigley AS ym Mhenisarwaun ar ddydd Llun y 26ain o Fedi. Os oes gennych broblemau i'w trafod ag ef ffoniwch Caernarfon 2076 i wneud trefniadau.

**TAITH I DDE FFRAINC** – Dychwelodd Marian Jones, Cae Corniog o dde Ffrainc lle bu ar ei gwyliau gyda'i chyfeilles drwy-lythyr (pen-pal). Daeth hithau i Benisarwaun i aros yng nghartref Marian.

**DIOLCHIADAU** – Dymuna Mrs. Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, ddiolch i'w chymdogion am eu caredigrwydd yn ystod gwaeledd Mr. Davies ac yn ei phrofedigaeth.

**GWELLHAD** – Da yw deall bod Mr. Owen Jones 9 Bryn Tirion wedi dychwelyd o'r ysbyty ac yn gwella.

**MR. ARTHUR ELLIS** – Yr ydym ar ddeall bod Mr. Arthur Ellis, Y Weirglodd Goch wedi bod yn wael. Dymuniadau da a gwellhad buan iddo gan ei gyfeillion i gyd.

**PRIODASAU** – Cawsom ddwy briodas yma yn ystod y gwyliau sef Catrin Rowlands, 21 Bryntirion gyda Mr. Colin Hanks, Caernarfon; a Mr. Trefor Rowlands a Miss Susan Roberts o Gaernarfon.

Pob bendith iddynt yn eu bywyd priodasol.

**TRIP AR Y TREN BACH I'R PENSIYNWYR**

**DYMUNA Cwmni Rheilffordd Llyn Padarn wahodd pensiynwyr y fro i fynd am daith ar y tren bach ar ddydd Gwener y 9fed o Fedi am 12, 1, 2, 3 a 4 o'r gloch yn rhad ac am ddim.**

# LLYTHYRAU

# Y Byd Yn Galw'r ECO

*Y BEDD YN VIRGINIA*

*Annwyl Olygydd,*

*Derbyniais yn ddiweddar lythyr oddi wrth ferch 'Thomas Robert Williams o'r Fachwen'. Dyma'r cyfieithiad:*

'Thomas Robert Williams oedd fy nhad. Yr oedd gan Robert Williams a'i wraig, Mary Jones, ddeuddeg o blant, sef Hugh Robert, William Robert, Robert R., John R., Evan R., Thomas R., Elen, Jane Jeffrey, Kate Jones, Mary Jones, Margaret Urrens ag Annie McLane.

'Daeth William i'r Unol Daleithiau yn gyntaf. Setlodd yn Iowa. Daeth Robert wedyn, ac aeth i'r Gorllewin yn ystod y Rhuthr Aur ('Gold Rush'). Mewn llythyr i'r teulu, ysgrifennodd i ddweud ei fod ar ei ffordd adref, ar ôl gwneud ei ffortiwn, ond dyna'r gair olaf oddi wrtho. Ni chlywyd oddi wrtho byth wedyn.

'Bu farw tad fy nhad (h.y. Robert Williams) cyn genedigaeth fy nhad (h.y. Thomas Robert Williams), a bu farw ei fam pan oedd yn blentyn bach.

'Anfonwyd amdano gan ei frodyr Hugh, John ac Evan. Addysgwyd y bachgen gan ei frodyr, ac mewn amser aethant i gyd i Arvonia, Virginia, i ddechrau busnes y chwarel lechi. 'Roeddynt yn llwyddiannus, a daeth pedair o'u chwiorydd i Arvonia hefyd.

'Roedd "gwladfa" niferus o bobl Gymraeg yn Arvonia flynyddoedd yn ôl, ac yr oeddynt i gyd yn gysylltiedig â'r gwaith llechi.

'Bu farw fy nhad gyda 'diptheria yn 40 oed. Gadawodd wraig, mab a merch. Aeth fy mrawd i West Virginia, a gadawodd dri o blant, ac wyth o wyrion.

'Yr ydwyf yn awr yn 86 oed. Priodais James Samuel Mitchener, ac y mae gennyf ddau fab yn feddygon, ac un ar ddeg o wyrion. Rwyf wedi ymweld â Chymru amryw o weithiau, ac mi gwrddais â chefnder imi yng Nghaernarfon. Dangoswyd imi y bwthyn lle 'roedd fy nhad yn byw.'

*Anfonwyd cyfieithiad o'r erthygl wreiddiol yn yr Eco i Mrs. Mitchener gan ffrindiau yn Arvonia. Ei chyfeiriad yw: 307, West Park Drive, Raleigh, North Carolina, 27605, UDA.*

*Clywais hefyd oddi wrth Miss Ethel P. Foulkes o Arvonia. Derbyniodd gyfieithiad o'r erthygl oddi wrth gefnder, Mr. William Roberts o Gaer.*

*Dywed Miss Foulkes fod yr hen fynwent yn rhan o'r Eglwys Gymraeg a fu yn Arvonia am flynyddoedd. Cerfiwyd llawer o'r cerrig beddi gan ei hen-ewythr, Mr. Morris R. Jones; dysgodd ei grefft yn Llundain, meddai.*

*'Yn ôl Miss Foulkes, daeth nifer o deuluoedd o Sir Gaernarfon i Arvonia, ac y mae eu disgynyddion yna hyd heddiw. Rhwng yr enwau lleol, cewch ddod o hyd i Williams, Griffith, Evans, Hughes, Morgan, Jeffreys, Edwards, Jones, Pierce a Foulkes.*

*Oherwydd cyfnewidiadau economaidd, meddai, yn ogystal â'r ddwy Ryfel, yr oedd, ymfudiad cyffredinol, ond, medd Miss Foulkes, "Yr ydym yn falch iawn fod rhai ohonynt, a oedd wedi llwyddo yn y byd – y lluoedd arfog, y banciau, y gyfraith a'r byd masnachol a phroffesiynol – yn awr yn dychwelyd i'r hen gyffiniau."*

*Ychwanegodd Miss Foulkes fod y chwarel leol yn cynhyrchu 'llechi pensaerniaeth' ("architectural slate") y dyddiau yma.*

*"Yr ydym yn falch iawn o'n hetifeddiaeth," ysgrifennodd Miss Foulkes.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Angus McDermid*

---

*Mrs. D.W. Kisabu,*
*P.O. Box 9041,*
*Kampala.*

*Annwyl Olygydd,*

*Merch Mrs. Susie Roberts, gynt o Ben-y-bont, Llanberis ydwyf, yn byw yn Uganda ers tair blynedd ar ddeg bellach. Rhaid i mi gael dweud cymaint yr wyf yn mwynhau darllen* **Eco'r Wyddfa,** *a llongyfarchiadau i bawb am bapur Cymraeg ardderchog. Ar ôl darllen yr* **Eco** *teimlaf fy mod wedi bod ar wyliau ym mro Llanberis yn sgwrsio hefo hwn a'r llall.*

*Yr oedd erthyglau Mr. Islwyn Williams am gadw gwenyn (Chwefror, Mawrth ac Ebrill) yn ddiddorol iawn. Yma yn Uganda byddwn yn bwyta mêl y gwenyn gwyllt. Bydd rhai pobl fentrus yn mynd i'r fforestydd ar adegau arbennig i chwilio am nyth y gwenyn. Ar ôl ei ddarganfod, byddant yn mygu'r gwenyn allan a chymryd y mêl. Tenau iawn yw ansawdd y mêl, a golau ei liw. Ni ellir ei fwyta fel hyn gan fod amryw o 'foreign bodies' yn y mêl, felly, rhaid ei ferwi a'i ogrwn. Mae fel gwneuthur jam, hwyaf y berwir, mwyaf trwchus fydd y mêl, ac yn flasus dros ben. Er, maent yn dweud i mi mai'r gwenyn Affrig yw'r rhai mwyaf blin eu tymer o'r holl wenyn. Ond maent yn gwneud mwy o fêl ac yn gallu gwrthsefyll prinder bwyd a gwaeledd yn well na gwenyn eraill.*

*Os bydd gennych ryw gornel fach yn rhifyn Tachwedd a fuasech mor garedig â dymuno pen blwydd hapus i mam (Mrs. Susie Roberts, 23 Dôl Eilian, Llanberis). Ar 26 o Dachwedd bydd yn 70 oed. Go brin y gallaf ddod drosodd, am resymau amrywiol, i ddathlu ei phen blwydd.*

*Yn gywir,*
*Dilys Wyn Kisalu.*

*Annwyl Olygydd,*

*Y GYNGRES GELTAIDD*

*Yr Alban oedd gwesteiwr y Gyngres eleni, ac fe'i cynhaliwyd ym Mhrifysgol Stirling o'r 15fed hyd y 19eg o Awst. Daeth cynrychiolaeth dda ynghyd o'r chwe gwlad Geltaidd, gyda nifer da iawn o Gymru. Cynhaliwyd y cyfarfodydd mewn adeilad modern hardd yn y Brifysgol, gyda phob cyfleustra ynddi, a lletya'r cynrychiolwyr yn un o'r Neuaddau.*

*Yn fras, dyma rai o weithgareddau'r wythnos: Ar y nos Lun croeso swyddogol gan y Brifysgol, yna yn ystod yw wythnos cafwyd sgyrsiau diddorol ar Lyfrau Gaeleg, Lle'r Ieuenctid yn y Gwledydd Celtaidd, Darlith gyda lluniau ar 'Culloden', Ymweliad a chofgolofn Bannockburn, yr Amgueddfa Hynafiaethau yng Nghaeredin; Gwasanaeth Gaeleg yn Eglwys St. Kessog, Callender a recordiwyd ar gyfer y BBC; Taith i Loch Katrine ac ar y llyn; Ceilidh (Noson Lawen) bob nos, ac ar y noson olaf i gloi cafwyd Cyngerdd Mawreddog yn adlewyrchu talentau y chwe gwlad Geltaidd. Y cynrychiolydd swyddogol i'r cyngerdd o Gymru oedd Miss Einir Wyn Owen, Rhiwlas, a rhoddwyd derbyniad gwresog iddi a gwerthfawrogiad o'i chyfraniad godidog. Cyfeiliodd ar y delyn i Delynores Dwyryd hefyd. Recordiwyd y cyngerdd gan y BBC. Arweiniwyd gan Mr. Hywel D. Roberts,*

*Cynhaliwyd cyfarfod coffa i'r Athro Jac L. Williams, cyn-gadeirydd Pwyllgor Cymru. Penodwyd Mr. Delwyn Phillips, Birmingham yn olynydd iddo. Fe'i cynhelir yng Nghaerfyrddin wythnos cyn yr Eisteddfod Genedlaethol.*

**Priscie Roberts.**


**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
*PEN CIGYDD Y FRO!*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!**

# LLANRUG

**DIOLCH** — Dymuna G. Jones Evans, Bro Rhythallt ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a chyfeillion am y caredigrwydd mawr a ddangoswyd yn ystod ei waeledd a thra bu yn yr ysbyty.

**UNDEB Y MAMAU** — I gloi tymor hynod o lwyddiannus aeth yr aelodau a'u cyfeillion ar wibdaith i Southport. Mwynhawyd y daith yn fawr iawn a chafwyd diwrnod braf. Dechreuir y tymor newydd gyda Gwasanaeth yn yr Eglwys ym mis Hydref, a bydd croeso i aelodau newydd.

**TRIP YR YSGOL SUL** — Aeth y plant, eu rhieni a'r athrawon ar eu trip blynyddol i'r Rhyl. Yr oedd y nifer eleni yn fwy o lawer a rhaid oedd llogi dau fws i'n cludo. Bydd yr Ysgol Sul yn ail-agor pan ddechreua'r ysgolion dyddiol ym mis Medi. Dymuna'r Rheithor ddiolch i'r athrawon am eu ffyddlondeb a'u teyrngarwch ar hyd y flwyddyn.

**CLWB BLODAU'R GRUG** — Aeth yr aelodau ar wibdaith drwy Ardudwy yn ddiweddar gan alw yng Nghapel Salem. Arweiniwyd gwasanaeth byr gan Rheithor Llanrug a chanwyd yr organ gan Mr. J. Griffith Jones. Rhoes y Rheithor hefyd fraslun o hanes lleoedd hanesyddol a diddorol yr ardal. Mwynhawyd te yn y Bermo a chafwyd diwrnod ardderchog.

**FFAIR FEDI** — Gobeithir cynnal Ffair Fedi a Thaith Gerdded er budd cronfa Adgyweirio Eglwys Sant Mihangel cyn diwedd y mis. Ceir manylion pellach yn y wasg ac ar bosteri.

**PLAID CYMRU** — Casglodd cangen Llanrug £502 tuag at ganolfan newydd y Blaid yng Nghaerdydd. Dymuna'r pwyllgor lleol ddiolch o galon i bawb am eu haelioni.

**PRIODASAU** — Yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug, priodwyd Mr. Alwyn Cadwaladr, mab Mr. a Mrs. G. Cadwaladr, Dolwyn, Glanffynnon, a Miss Anwen Hughes, merch Mr. a Mrs. W. Hughes, 10 Rhes Digbeth, Bontnewydd. Gwasanaethwyd gan y Rheithor a'r organyddes oedd Mrs. M. Jones, Ogwen. Bydd y pâr ieuanc yn cartrefu ym Montnewydd, a dymunwn iddynt hir oes a phob bendith a hapusrwydd.

Dymuniadau da hefyd i Mair, merch Mr. a Mrs. H.O. Jones, Eryri a Howyn, mab Mr. a Mrs. Cledwyn Jones, Dôl Peris, Llanberis ar eu priodas yng Nghapel Mawr, Llanrug. Pob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd — Hafod Wen, Glanffynnon.



**BEIRNIADU YN Y GENEDLAETHOL** — Llongyfarchiadau i Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, a gafodd fraint o feirniadu'r Gystadleuaeth Gân Bop yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam.

**GWOBRAU YN Y GENEDLAETHOL** — Enillodd y Dr. Eirwen Gwynn, Tyddyn Rhuddallt, y wobr gyntaf am Stori Fer yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, a daeth yn ail am y Fedal Ryddiaith gyda chanmoliaeth uchel. Yr oedd pump o'r straeon yn y Dosbarth Cyntaf wedi eu hysgrifennu ganddi hi. Yn ychwanegol at hyn, cafodd wobr am lun hefyd. Llongyfarchiadau i'r ferch amryddawn hon.

**MERCHED Y WAWR** — Aeth yr aelodau ar ymweliad ag Ynys Môn yn ddiweddar. Buont yng Nghanolfan Crefftau Cymreig, Bodeilio ac yna ymlaen i Westy Glantraeth am swper. Trefnwyd y daith gan Mrs. Margaret Jones, a Mrs. Beth Anne Williams a diolchwyd iddynt ar ran yr aelodau gan Mrs. J.C. Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar yr ail nos Fawrth o Fedi yn yr Ysgol Gynradd pan ddisgwylir Parti Dawnsio Gwerin, Caernarfon. Gan mai hwn fydd cyfarfod cynta'r tymor bydd croeso i rai ymaelodi o'r newydd.

**LLONGYFARCHIADAU** — i David Horman, Venice ar gael ei benodi'n athro i Ysgol Gynradd Cemaes, Môn.

I Anwen Jones, Cartrefle; Michael John Lovatt, Brwynog; Berwyn Owen, Glasgoed; Ann Thomas, Gwenallt a Gwyn Thomas, Algwyn ar eu llwyddiant yn Arholiadau Lefel 'O' a'r CSE.

**GWAELEDD** — Bu amryw o'n pentrefwyr yn wael yn ddiweddar ac yn eu mysg Mr. I. Jones, Penrhos a fu o dan driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon. Deallwn ei fod wedi dod adref ac yn gwella'n foddhaol.

**CYDYMDEIMLWN** — a Mrs. M. Lewis, Madryn House yn ei phrofedigaeth o golli mab-yng-nghyfraith , ac a Mr. Goronwy Williams, Llys Ifor ar farwolaeth ei dad.

**NEWYDDION Y SEINDORF** — Cynhaliwyd Pwyllgor y Merched gyda Mrs. Heulwen Williams yn y gadair. Bydd Helfa Drysor nos Wener, Medi 2ail, ac Arwerthiant yn Ysgol 'Feed my Lambs', Caernarfon ddydd Sadwrn, Medi 10fed. Cydymdeimlir a Mrs. M. Lewis, Madryn House, yn ei phrofedigaeth o golli ei mab-yng-nghyfraith yn y Waunfawr. Bu'r seindorf yn brysur drwy'r gwyliau gyda charnifalau a chyngherddau. Diolchwn i'r casglyddion sydd yn mynd o amgylch yr ardal ac i'r pentrefwyr a chyfeillion am eu caredigrwydd a'u croeso.

**LLWYDDIANT** — Bu Geraint Meredydd Rowlands, Llys Forgan yn llwyddiannus mewn arholiad i'w dderbyn i Goleg yr Army Pay Corps, Winchester, lle'r hyfforddir ef i fod yn gyfrifydd. Bydd yn dechrau yno ar y 13eg o Fedi. Llongyfarchiadau Geraint, a phob dymuniad da.


**E& E.M.GREEN**

**SIOP GRON**

**PENISARWAUN**

*

**Nwyddau Groser**
**Ffrwythau a Llysiau Ffres**

*

*Dewis rhagorol*
*Croeso cartrefol*




## Cronfa Rigarug

**DYMA fydd yr enw ar y gronfa yn ardal Llanrug, Tan-y-coed a'r Ceunant i gasglu arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch 1979. Trefnwyd cystadleuaeth i gynllunio sumbol Rigarug, a chafwyd toreth o gynigion o Ysgol Gynradd Llanrug — dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r prifathro, yr athrawon a'r plant am y diddordeb. Yn anffodus, siomedig oedd ymateb disgyblion Ysgol Brynrefail — ond rhaid cofio fod y gystadleuaeth wedi ei threfnu ar adeg arholiadau iddynt.**

Penderfynwyd ar sumbol a luniwyd gan yr ysgrifennydd — RIGARUG. Gobeithir gwerthu beiros, balwniau, bathodynnau/labelau ac yn y blaen gyda'r sumbol arnynt yn y dyfodol agos. Cyn diwedd mis Medi gobeithir y bydd cardiau Nadolig ar werth tuag at y gronfa, ac y mae Disgo a Thwmpath Dawns wrthi'n cael eu trefnu — manylion i ddilyn maes o law.

Cynhelir taith gerdded llwybrau cyhoeddus ar Sadwrn, Medi 3ydd, gan obeithio cael cynrychiolaeth o bob mudiad o'r ardal i gerdded. Unrhyw un â diddordeb i ddod i gysylltiad ar frys â'r Ysg. D.W. Thomas, "Bron y Nant", Llanrug, ffôn: Caernarfon 3515.

Bydd y Pwyllgor nesaf yn cael ei gynnal yn Festri Capel Mawr am 7.30, nos Iau, Medi 8ed, pryd y ceir yr adroddiad ariannol cyntaf gan y trysorydd!

## ER COF AM

**LINDA VAUGHAN WILLIAMS**
**Ynys Iago, Pentir.**

Mae blwyddyn bellach wedi mynd heibio ers pan ddaeth cwmwl du dros yr ardal yn gyfangwbl.

Hoffwn ddiolch i'r ardaloedd i gyd am eu caredigrwydd tuag at y plant a minnau yn ein profedigaeth fawr o golli Mam hoffus a gwraig mor annwyl (Linda).

Carwn ddiolch yn arbennig i Mr. Gwyn Parry, BA., Bro Dawel, Deiniolen am y gerdd goffa isod a gyfansoddodd yn ystod yr amgylchiad trist.

Islwyn Williams

Brynhawn Sadwrn yng Ngorffennaf ,
A'r haul yn taro ar yr ŷd,
'Roedd yn Ynys Iago deulu,
Ac yno aelwyd gynnes, glyd.
Clyd a chynnes nes daeth damwain,
Damwain afraid, ddi-dostur, ddrud.
Caiff y teulu bach ei rwygo
Wrth weld y fam yn newid byd.

O mor sydyn ddaeth yr anap,
Nes syfrdanu a gwneud yn fud
Bob un ffrind a châr i Linda,
Linda — y fwynaf yn y byd.
Ni bydd llenwi ar y mawrfwlch
A edy Linda dirion, driw.
Cymer hi i'th ymyl, Iesu,
Cofleidia hon, sy'n ferch i Dduw.

Gŵr a phlant oedd bwysig iddi,
Rhôi nawdd a chariad i bob un,
Nes daeth ffawd, a'i chipio'n sydyn
A'i rhoi yng ngofal Crist ei Hun.
Tynn hi at dy gesail, Iesu,
Tywallt d'ysbryd ar ei thŷ,
Sicrha ei phlant a'i phriod
O'r ail-gyfarfod oddi fry.

Gwyn Parry


**E.W.&M.WILLIAMS**



**Y BECWS**
**DEINIOLEN**

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES — TEISENNAU BLASUS !

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN,
PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL

# Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



**Dyna brifwyl arall wedi mynd heibio. Prifwyl hanesyddol mewn sawl ystyr. Roedd y pafiliwn newydd yn gartre moethus a chysurus i'r ŵyl, ond gresyn na fyddai rhywrai wedi trin ychydig ar y maes o'i gwmpas.**

**Mae'n bwysig cael maes delfrydol i'r Eisteddfod. Wedi'r cyfan dod i'r maes mae'r miloedd ac nid i'r pafiliwn. Mae'n rhaid cyfaddef fod y pafiliwn newydd yn rhagori cryn dipyn ar yr hen sied, ond eto rhaid cofio mai dim ond ar ddau neu dri achlysur o fewn yr wythnos y bydd y pafiliwn dan ei sang.**

Pan gyrhaeddais y maes ar y Sul cyn y 'Steddfod, tybiais fy mod i ar y lleuad – llwch a cherrig ymhobman. 'Doedd 'na'r un goeden i'w gweld, na hyd yn oed flewyn glas ar y maes llychlyd. Os bu'n ŵyl hanesyddol gyda'r pafiliwn newydd a'r bardd dwbwl – dyma'r unig eisteddfod na fedrodd yr un enaid byw eistedd neu orwedd ar y maes yn wyneb haul llygaid goleuni. Ond heddwch i'w llwch, a diolch i drigolion Wrecsam a'r cylch am eu croeso cynnes.

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchion cynnes i rai o fro'r *Eco* a fu'n llwyddiannus – yn enwedig y rhai a lwyddodd yn adran llên. Daeth y Dr. Eirwen Gwynn i'r brig gyda'r stori fer, a deallaf iddi ddod yn ail am y Fedal Ryddiaith. Cafodd ei phriod Harri Gwynn, yr un profiad o fod yn ail am y goron fwy nag unwaith yn y pum degau.

## LLAWENYDD A THRISTWCH

Llawenydd ar y cychwyn oedd clywed am fuddugoliaeth yr hynafwr hynaws, a'r chwilotwr o Lanrug, sef Mr. G.T. Roberts – un o gyn-brifathrawon y pentre – ond trodd y llawenydd yn dristwch pan fu farw Mr. Roberts ychydig ar ôl yr Eisteddfod.

Cafodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth ddiddorol honno o gasglu englynion oddi ar gerrig beddau – cystadleuaeth a ddenodd bron i gant o ymgeiswyr. Yn ôl y beirniad, yr Athro Bedwyr Lewis Jones, 'roedd hon yn gystadleuaeth arbennig. Gobeithio wir y caiff y casgliad englynion hwn weld golau dydd.

Wrth edrych yn ôl dros Eisteddfodau'r gorffennol – y rhai a gynhaliwyd yn y trefi bach sy'n aros ar fy nghof fel y rhai mwyaf llwyddiannus. Mae'r naws eisteddfodol a'r cynhesrwydd hwnnw sy'n angenrheidiol i wneud 'Steddfod lwyddiannus i'w deimlo'n gryfach mewn rhai mannau. Cof da am eisteddfodau'r trefi bach – Y Bala 1967, a Chricieth 1975. Daw'r eisteddfod i'n bro ninnau ymhen dwy flynedd, ac mae eisteddfodau Caernarfon wedi bod yn rhai hynod o lwyddiannus bob tro.

Yn y dyddiau hyn, pan mae'r ŵyl genedlaethol mor gostus i'w chynnal, a chylch eang yn torchi llewys yn y gweithgareddau – onid oes lle i ystyried ei chartrefu yn y trefi llai – yn wir mewn ambell i bentre.

## BETH AM LANBÊR?

Yn fy marn i, byddai Llanberis yn lle delfrydol i godi cartre i'r ŵyl. Digon o westai, golygfeydd rhamantus yn gefndir iddi, a chadernid Eryri yn lapio amdani. Problemau parcio efallai!

Mae'n rhy ddiweddar i wahodd Eisteddfod 1979 i Lanberis, ond ymhen rhyw ugain mlynedd fe ddaw'r Eisteddfod Genedlaethol i'r ardal hon eto reit siwr. Beth am gadw'r syniad mewn cof a gwahodd 'Steddfod y flwyddyn 2001 i Lanberis.

Braidd yn anhwylus fyddai cludo'r Orsedd i gopa'r Wyddfa mewn bysiau dwbl dec, ond 'rwy'n siwr y gellid benthyca hofrennydd neu ddwy o'r Fali.

Yn y cyfamser hogwn arfau, ac awn ati o ddifri yn ystod y ddau aeaf nesa' 'ma i baratoi ar gyfer croesawu ein gŵyl genedlaethol i hen dre'r cofis.

## EISTEDDFODAU LLEOL

Beth am geisio codi safon ein heisteddfodau lleol a chael unwaith yn rhagor eisteddfodau o fri ym mro'r *Eco*. Mae eisteddfodau o fri bron ymhob ardal yn Llŷn ac Eifionydd ac yn yr hen sir Feirionnydd a Môn. Beth am aileni eisteddfodau enwog Cefn y Waun, Llanrug, Gorffwysfa a Nant Padarn, Llanberis.

Drwy wneud prentisiaeth mewn eisteddfodau lleol y mae cyrraedd llwyfan y Genedlaethol. Os cofiaf yn iawn – yn eisteddfod Llandegfan, Sir Fôn, yr enillodd Alan Llwyd ei gadair gynta. Ac yn wir yn Eisteddfod Preswylfa Llanberis y cafodd T. Rowland Hughes ei lwyddiant eisteddfod cynta.

Mae gen innau go' plentyn am Dewi Emrys yn ennill cadair yn Eisteddfod Bethel sawl blwyddyn yn ôl bellach. Ddaeth o ddim yno i gael ei gadeirio chwaith, ta waeth am hynny.

Braidd yn llwm yw'r fasged gerddi – beth am anfon rhai i mi.

Hwyl fawr,
Selwyn

I dorri tir newydd, dyma salm i orffen – Salm yr Hen Chwarelwr.

### SALM YR HEN CHWARELWR

**Dyrchafaf fy llygaid i'r fan lle bu'r Ceiliog Mawr yn gwarchod hen sgerbwd o chwarel.**
**Lle dringodd ein tadau a'n teidiau, yn nannedd drycinoedd, i naddu eu bara beunyddiol o grombil y graig.**
**Heddiw mae rhwd ar y rheiliau, a mieri barus a fentrodd wreiddio ar lwybr pen domen.**
**A bellach ni ddaw tramp y sgidia' hoelion mawr i grafu'r wawr ar Bont-y-Bala.**
**"Segur yw'r cŷn a'r morthwyl".**
**Concrodd gwŷr y graig ym Mryn Seiont a Llangwyfan, cyn i'r c'nebrynau mawr hebrwng eu gweddillion yn barchus drist, i Fachpela, Llanddeiniolen a'r Nant.**
**Ac yno ar gerrig gleision, fe gerfiwyd yn gynnil y dystiolaeth i'w haberth.**
**Heddiw ar ddydd codi cardod, daw dau neu dri o'r gweddill prin i godi bys bach i'r Bull a'r Dolbadarn, uwch seldeidia o atgofion.**
**Ac fe ddychwel tinc yr ebill a miri'r caban i chwarae'n ddireidus ar gasetiau'r cof, wrth sôn am Tin Pant, Hafod Ŵan a'r Gilfach Ddu.**
**Daeth dydd y Cyfri' Mawr.**
**Dyrchafaf fy llygaid i'r fan lle bu'r Ceiliog Mawr yn gwarchod hen sgerbwd o chwarel, – cyn bod son am dwnelu'r dwr o'r Marchlyn Mawr.**

**Selwyn**

## I'R PARCH. JOHN OWEN BA., BD.
## Mehefin 1977

**"HWYL FAWR" ac nid "FFARWEL"**

Yn fachgen ieuanc, eofn cychwynnodd ar ei daith
Ei lygaid yn agored, a'i gariad at y Gwaith
Yn fugail heb adnabod na dafad chwaith nac oen,
Ond egni, bywyd, asbri a gaed o'i nwyfus hoen.

Fel pren ar lan afonydd, yn gadarn safodd ef,
Nid byth y caed ei siglo gan unrhyw filain lef.
Ei wên yn falm i'r enaid, yn olew i bob stŵr,
A'i fraich yn dal i fyny rhyw druan yn y dŵr

Fe welir ffrwyth ei lafur ymysg ei braidd yn awr
Er nad ymron ond dechrau ein gyrfa ar y llawr –
Rhodd inni ffrwyth gwybodaeth, doethineb, cariad gwiw,
Llawenydd i'n heneidiau, ac iachawdwriaeth Duw.

Fel coeden mewn hardd goedwig lle nad oes dyblu'r un,
Ceir ef yn ddigyffelyb ac ar-ei-ben-ei-hun,
Ni welwyd 'rioed y meddwl, ni welir yma'n awr
Ni welir i'r dyfodol chwaith ei ddyblu ar y llawr.

Fe ddaeth ystormydd creulon i guro ar ei ddôr,
Fe welodd gwympo'i filwyr, distewi lleisiau'i gôr.
Ond fel rhyw dderwen gadarn mewn storm yn derbyn nerth
Concwerodd lid y gwyntoedd wrth wrando llais y berth.

Hwyl fawr yn awr i'n Bugail mewn arall gorlan glyd,
Diolchwn am ei gwmni. Yn awr daw tro ar fyd.
Mewn meddwl byddwn yna – yn cofio amser triw
Pan dd'wedodd wrthym "Cofia Grist" a "chofia garu Duw".

Fe fydd ei aelwyd gynnes yn dal yr un o hyd
Aeth tŷ yn gartref bellach, lle bynnag bo'n y byd.
Boed iechyd ar yr aelwyd, hapusrwydd di-ben-draw,
A chariad Duw yn gwarchod ac arwain ar bob llaw.

*Dilys Baylis.*

## LLWYDDIANT SY'N GYSYLLTIEDIG Â'R FRO



**Llongyfarchiadau gwresog i Miss Gweno Williams 22 oed o Sale, Swydd Gaer am lwyddo i ennill gradd BA (First Class Honours) mewn Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Efrog. Merch ydyw i'r Dr. a Mrs. Frazer Williams. Mae Dr. Williams yn hanu o'r fro ac yn ddarllenwr a chyfrannwr i Eco'r Wyddfa.**

**Mae Gweno'n gwersyllu'n gyson yng Nglan Llyn er 1969. Cafodd brofiad diddorol yn ystod mis Awst. Aeth i aros gyda theulu yn yr Eidal er mwyn gwella Saesneg llafar yr Eidalwyr.**


STORFA
Mace
S.&E.
Jones
Llanrug
FFÔN: Caernarfon 2790
BLODAU A FFRWYTHAU YW EIN HARBENIGRWYDD

S. JONES
CYFANWERTHWR FFRWYTHAU
*(WHOLESALE FRUITERER)*
Y STORFA
LLANRUG
FFÔN
CAERNARFON 2790

# WAUNFAWR

**YR AELWYD** – Y Swyddogion am y flwyddyn hon yw: **Cadeirydd:** Haydn Jones, Rhandir Mwyn; **Ysgrifennydd:** Irene Roberts, Pant Teg; **Trysoryddion** Dafydd Glyn Williams, Coed Gwydryn a Stephen Jones, Saron Wen. **Arweinydd:** Marion Iwan, Penyberth. Gweithgareddau cynta'r tymor fydd Taith Gerdded a Barbiciw. Ymhellach ymlaen fe wneir ymdrech arbennig i godi arian ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch.

**PWYLLGOR LLEOL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 1979** – Cynhaliwyd y pwyllgor cyntaf yn yr ysgol ar Fai 12 a dewiswyd y Swyddogion canlynol: **Cadeirydd:** Mr. Iolo Huws-Roberts, Bodrida; **Is-gadeirydd:** Mrs. K. Wyn Jones, Bron Eifion; **Ysgrifennydd** Mrs. Pat Parry, Ffridd Felen; **Trysorydd:** Mr. T.H. Williams, Coed Gwydryn Penderfynwyd cyfethol pawb o'r Waun sy'n aelodau o bwyllgorau'r Eisteddfod yng Nghaernarfon.

**Y CARNIFAL** – Coronwyd Bridget Hughes, Bro Waun yn Frenhines y Carnifal gan Tanya Roberts y cyn-Frenhines. Cyfarchwyd y frenhines gan ferched bach y ddawns flodau a chor o blant yr ysgol. 'Roedd y llwyfan wedi ei haddurno'n lliwgar a blodeuog ar gyfer y coroni a'r carnifal. Y Prif Westeion oedd Cwmni'r 'Pibydd Brith' o Gwmni Theatr Cymru, a nhw, yn eu dilladau rhyfedd, a arweiniodd y carnifal drwy'r pentref yn ogystal â beirniadu'r gwisgoedd ffansi. Tîm y "Whackers" a enillodd y ffwtbol pump bob ochr a chyflwynwyd tarian iddynt gan Meilir Owen, y reffarî.



*Brenhines y Carnifal, Bridget Hughes a'i gosgordd.*

Hefyd cynhaliwyd mabolgampau llwyddiannus iawn a cymerwyd rhan gan nifer fawr o'r plant a'r bobl ifanc ac enillwyd y ras fawr gan Martin Eaglestone. Dymuna pwyllgor yr Ysgol Feithrin ddiolch i bawb a fu'n trefnu ac yn gofalu am y gweithgareddau.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Mr. Eric Jones, swyddog Gwynedd ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd, oedd siaradwr y mis, a diolchwyd iddo gan Mrs. Mottram.

Hefyd croesawyd Mrs. O. Harlech Jones i'r cyfarfod gan y Llywydd Mrs. H. Morfa Evans, Preswylfa a rhoddodd hithau hanes y Cyfarfod Blynyddol, (AGM) yn Llundain.

Daeth rhai o aelodau Sefydliad y Merched Bryn y Neuadd, Llanfairfechan yma ar Orffennaf 21 a threuliwyd prynhawn difyr iawn yn eu cwmni yn Neuadd yr Eglwys.

Bydd Dosbarthiadau Gwaith Llaw o dan ofal Mrs. Buddug Rowlands,Trewen yn dechrau ym mis Hydref.

**CLWB GWYRFAI** – Y mae aelodau'r clwb yn gofidio'n fawr fod Mr. William Jones, Gilfach yn peidio â bod yn drysorydd, ond yn ddiolchgar iawn iddo am lenwi'r swydd mor ymroddgar am gyhyd. Y mae'n dda ganddynt ddeall ei fod yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty.

**MERCHED Y WAWR** – Nos Iau, Mehefin 23, bu aelodau'r gangen leol yn ymweld a charchar Biwmaris yng nghwmni Rhodri Prys Jones o Adran Archifau Gwynedd. Cafwyd hanesion diddorol iawn am yr hen adeilad gan Rhodri, a diolchwyd iddo am noson addysgiadol gan y Llywydd, Mrs. Nellie Williams. Yna aeth yr aelodau ymlaen i'r Star Motel, Gaerwen i gael swper ysgafn.

Swyddogion y Gangen am y flwyddyn 1977–78 yw: **Llywydd:** Mrs. Gillian Wyn; **Ysgrifenyddes:** Mrs. Jean Jones; **Trysorydd:** Mrs. Iona Williams.

Dymuna'r pwyllgor ar ran yr aelodau ddiolch o galon i swyddogion y tymor diwethaf am eu gwaith parod.

**CROESO'N ÔL** – i Miss Nancy Griffith, Tanrallt a Miss Oweilda Williams, Bod Iwan ar ôl eu gwyliau yn yr Unol Daleithiau. Yr oedd y ddwy yn aros efo Mrs. Helen Ross, chwaer Miss Williams, yn Sebastogol, Califfornia.

Hefyd i Mr. Alwyn Jones, Bryn Gwenallt a ddaeth adref dros dro o'r môr.

A chroeso i Mr. a Mrs. Edwin Griffith gynt o Aelybryn, a'u mab a'u merch yng-nghyfraith ar eu hymweliad â'r ardal o'r America.

**CYMDEITHAS YR IAITH** – Cafwyd noson i groesawu Teresa Pierce yn Neuadd yr Eglwys. Croesawyd hi gan Dafydd Iwan, Ffred Ffransis a Wynford James. Llywydd y cyfarfod oedd Ifan Roberts, Llanrug.

**DYMUNIADAU GORAU** – i Mr. a Mrs. Gerald S. Dinwiddy (gynt Llinos Jones) ar achlysur eu priodas. Ac i Jeff ac Einir Shepherd, Nant y Mynydd a Robin a Lisa ar eu hymadawiad i Lanfairfechan.

**PROFEDIGAETHAU** – Cydymdeimlwn â theulu Mrs. Mair Jorgensen, 2 Tref Eilian a fu farw ar ôl gwaeledd hir yn yr ysbyty. Ac â theulu Mr. Meirion Rhys Jones, Llwyn Afon a fu farw mor ddi-rybudd yn ei gartref, Ac hefyd â Mr. David Griffith, 10 Tref Eilian ar farwolaeth ei wraig ar ôl gwaeledd maith iawn. Ac â Mr. Raymond Parry, Ffridd Felen (colli mam), a Mr. R.B. Eaglestone, Tremallt (colli tad).

**YN YR YSBYTY** – Drwg gennym glywed fod Mrs. Carys Jones, Gorsaf yr Heddlu wedi mynd i'r ysbyty am driniaeth.

**O'R YSBYTY** – Y mae'n dda gennym ddeall fod Mr. W. Griffith, Bronallt, Miss Marian Wyn Jones, 12 Dolerddi; Mrs. A. Taylor, 10 Dolerddi; Mrs. E.M. Owen, Bryn Peris; Mr. Francis Williams, 4 Bryn Golau; Gwen Pritchard, Tref Eilian a David John Williams, Cae Stil, wedi dod gartref o'r ysbyty.

**BEDYDDIADAU** – Bu dau fedydd yng Nghapel Bethel: **Delyth Mai,** merch Mr. a Mrs. Alfred M. Jones, Cyrnant Lodge a **Sara,** merch Mr. a Mrs. Eurwyn Williams, Parc. A llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Giles, Tai Isa ar enedigaeth merch fach (Louise).

**LLONGYFARCHIADAU** – a'r dymuniadau gorau i Mr. Iolo Huws-Roberts, Bodrida (Prifathro Ysgol Syr Hugh Owen) ar gael ei benodi'n brifathro Ysgol Segontium hefyd.

**LLWYDDIANT** – Llongyfarchiadau i Clive Cotton, Brynhyfryd ar ennill ei radd yn y Brifysgol; i Nia Einir Jones, Rhoslan ar lwyddo yn ei harholiad am Dystysgrif Athrawes; i'r rhai canlynol a fu'n llwyddiannus yn arholiadau'r Cydbwyllgor Addysg: Ann Ll. Griffith, Linda Jones, Caroline Parrott, Yvonne Parry, Glenys Thomas, Delyth Williams, Jill V. Williams, Martin Eaglestone, Peter Greasley, Emyr Jones, J.R. Owen. Ac i Anthony Marston ar ei lwyddiant yn Arholiad Cyntaf yr RAM a'r ACM.

Ac hefyd i Anna Lloyd Hughes, Sian Thomas a Lucy Wills am gael gwobrau efo'u ceffylau yn Sioe Gogledd Cymru yng Nghaernarfon.

**CADW'N HEINI** – Ferched trowch i Ddyddiadur y Mis!

**PLAID CYMRU** – Casglodd y gangen £200 i gronfa arbennig a sefydlwyd gan y Blaid i brynu swyddfa newydd sbon yng nghanol Caerdydd.

**RHEILFFORDD YR UCHELDIR** – Mae cryn ddadlau y dyddiau hyn rhwng Cwmni Rheilffordd yr Ucheldir (1964) ac Undeb yr Amaethwyr. Dymuna'r cwmni all-agor y lein fach o Gaernarfon drwy hen stesion Dinas ac i fyny'r Wyrfai drwy Waunfawr a Betws Garmon i Feddgelert. Credant y buasai ymgyrch o'r fath yn denu'r lluoedd ymwelwyr sy'n dod i Lanberis i fynd ar y trenau bach i ben yr Wyddfa ac ar hyd glan y llyn. Ond dywed Ysgrifennydd Undeb yr Amaethwyr nad yw'r ffermwyr ar hyd eu llwybr yn ffafriol o gwbl ac y gallasai'r tren achosi coelcerth wrth bwffian drwy Fforest Beddgelert ac na phiau'r cwmni fodfedd o'r tir.

# CEUNANT

**CROESO ADREF** – Rydym i gyd fel ardalwyr yn falch iawn o gael croesawu Mrs. Jennie Jones, Tan y Ffordd, gynt, adref i'n plith am wyliau o Awstralia. Hwn yw ei thrydydd ymweliad â'r Hen Wlad er iddi ymfudo saith mlynedd yn ôl. Mae Mrs. Jones ar hyn o bryd yn aros ym Mryn Glas gyda'i brawd a'i chwaer Mr. R, Pierce a Miss Mary Pierce.

# TAN-Y-COED

**PRIODAS** – Dydd Sadwrn, Gorffennaf 9fed priodwyd Mr. Ieuan Williams, Bryn Hyfryd a Miss Eirina Mair Roberts, Carmel. Llongyfarchiadau a dymuniad da'r ardal i'r ddau. Bydd y pâr ifanc yn byw yng Ngharmel.

**LLWYDDIANT LEFEL 'A'** – Llongyfarchiadau i Delyth Wyn, 3 Tai Tan-y-coed ar ei llwyddiant yn Arholiad Lefel 'A'. Bu'n llwyddiannus mewn pedwar pwnc, Bywydeg, Cemeg, Ffiseg a Mathemateg. Bydd Delyth yn dechrau ar ei gyrfa golegol ym Mhrifysgol Bangor yn yr Hydref.

**TRINIAETH LAWFEDDYGOL** – Croeso adre' i Mrs. Lizzie Jones, Bro Rhuddallt. Bu Mrs. Jones dan driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Dewi Sant Bangor. Dymunwn adferiad iechyd buan iddi.

Croeso adre' hefyd i Mrs. Margaret Hughes, Caehoeden, hithau wedi bod yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor, ac yn awr yn gwella. Adferiad llwyr a buan iddi hithau.


DEWCH I

**SIOP THOMAS PRITCHARD**

***IRONMONGER***

**BIRMINGHAM HOUSE LLANBERIS Ffôn 206**

**am nwyddau a chelfi a bob math i'r cartref**

.......

**Carpedi, leino, Paent Valspar a Crown Papur papuro, Tsieni, Nwyddau Trydan a llawer MWY..........**

**OLL AM BRISIAU RHAD!**

**BARGEINION TOPDEC bob mis**



**GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG**

Gwaith Coffaol o bob math mewn llechi a gwenithfaen gan grefftwyr lleol



**FFÔN CAERNARFON 2898**

# BETHEL

**LLONGYFARCHIADAU** i holl blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau yn yr ysgol eleni. Dymunir yn dda iddynt i gyd, y rhai sy'n mynd i goleg, i waith a'r rhai sy'n mynd yn ôl i'r ysgol. 'Rydym hefyd yn dymuno'n dda i'r plant sy'n dechrau yn Ysgol Brynrefail am y tro cyntaf eleni.

**CYDYMDEIMLO** – Yn ystod yr haf bu farw Mr. Thomas Alun Williams, Monarfon, a'i chwaer Mrs. Olwen Owen, Pennant. 'Rydym yn cydymdeimlo â'r teulu i gyd yn eu colled fawr.

**LLONGYFARCHIADAU** i Mr. Gerald Evans, gynt o 'Llyfnwy', Tan-y-Cae, ar ei ddyrchafiad. Mae Mr. Evans bellach wedi dechrau yn ei swydd newydd gyda Banc Westminster ym Mangor.

**LLONGYFARCHIADAU** i Mr. Robert Owen Williams, Glan Gors ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 90 oed yn ystod y mis.

**DOSBARTHIADAU CADW'N YSTWYTH** – Bydd dosbarth cadw'n ystwyth yn dechrau yn y Neuadd ar nos Lun, Medi 19 am 7.30. Bydd y gwersi yn cael eu cynnal ar bob nos Lun yn ystod tymor y gaeaf.

**PLAID CYMRU** – Yn ystod yr haf bu'r gangen leol yn casglu arian tuag at brynu swyddfa newydd i'r Blaid yng Nghaerdydd. Casglwyd £75, a diolchir o galon i bawb am eu cyfraniad.

Dydd Llun, Medi 26 bydd Mr. Dafydd Wigley, A.S., yn cynnal Cymorthfa yn y Neuadd. Gellir gwneud trefniadau i'w weld trwy ffonio Caernarfon 2076.

**YR URDD** – Bydd tymor y gaeaf yn dechrau eleni nos Wener, Hydref 7.

**FFAIR** – Nos Wener, Medi 9 bydd Capel Bethel yn cynnal Ffair yn y Neuadd.

**NEWYDDION Y RHIFYN NESAF** – Os oes gennych newyddion, neges neu stori i'w cynnwys yn y rhifyn nesaf, anfonwch hwy i Geraint Elis, Sycharth, (Ffôn: Felinheli 670726) erbyn dydd Mercher, Medi 21.

EISTEDDFOD
GADEIRIOL
DYFFRYN
OGWEN

TACHWEDD 18 - 19
1977

≈

Anfoner stamp 7c
am Destunau
at

EMLYN JONES Ysw.,
5 MAES COETMOR
BETHESDA

# APÊL ANGORFA

**Dyma restr arall o'r cyfranwyr i'r apêl arbennig hon. Mae dros £1,000 eisoes mewn llaw, ac y mae angen mwy. Bydd y gronfa yn cau yn fuan. Diolch am eich cefnogaeth.**

Parisella, trwy gydweithrediad â CEGB £125; Ken Jones, (Maes Parcio Diwrnod Agored CEGB): £117.00; Ysgol Brynrefail: £100; Cyngor Tref Llangefni: £25; Clwb Ieuenctid Llanberis: £22.30; Capel Seion Llanberis: £20; Di-enw o Doncaster; Cyngor Cymdeithas Bethesda; Capel Libanus Deiniolen; Cyngor Cymdeithas Waunfawr; Cyngor Cymdeithas Cricieth; Cyngor Cymdeithas Llanfair N.B., Mon; Cyngor Bro Caergybi Wledig; Llais Ogwan, Bethesda; Cyngor Cymdeithas Niwbwrch; Cyngor Cymdeithas Llangeinwen; a Chyngor Tref Caernarfon: £10; Clwb y Castell, Caernarfon: £8.50; Cangen Plaid Cymru, Llanberis; Miss M. Phillips, Penfro, Caradog Rd., Aberystwyth; Ysgol Dyffryn Ogwen; Ysgol Dyffryn Nantlle; Mr. W.E. Thomas, Bodafon, Ffordd y Gogledd, Caernarfon; Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen; Mrs. E.J. Rowlands, Bryn Ffynnon, Llanrug; Y Dr. Glyn Jones, Brynsiencyn; Cyngor Cymdeithas, Llaneilian; Eglwys Bedyddwyr, Caersalem, Caernarfon; Cyngor Cymdeithas Llanengan: £5. YHA Pen-y-pass: £4; Mr. a Mrs. Lai Jones, Llanberis; Mr. a Mrs. H. Davies, 6A, Churchill Rd., Walton Stone: £3. Miss E. Evans, Tegfan, Penmaenmawr; Michael L. Thomas, Rhos Helyg, Llanidloes; Mrs. A. Mills, 560 Rooley Rd., Rochdale; Miss Phyllis Ellis, Rhosfair, Penisarwaun; Mr. Emlyn Evans, Eryl, Coetmor, Bethesda; Mr. W. Iolen Hughes, Tŷ'r Ysgol, Rhiwlas; M.C. Pritchard a L. Pritchard, Central Garage, Llanberis; Mr. a Mrs. Dilwyn Jones, Capel Cwta, Bethesda; W.I. Penygroes; Morfudd Tipper a G. Lloyd, Dolgellau; Mr. a Mrs. I.J. Thomas, Green Bank, Llanberis; Miss M.D. Thomas eto; Mrs. Hanks, Walton, Stone, Staffs: £2. Mr. a Mrs. W.G. Ellis, 15 Cremlyn, Bethel; H. Lloyd, Pen-y-pass, Nant Gwynant; Mr. a Mrs. W. Williams, Llys Eiddor, Newton St., Llanberis; Rhiannon Williams, Tan y Cyrau, Betws-y-Coed; Mr. A. Williams, 13 Hill St., Gerlan; Aled Jones, 39 Newton St., Llanberis; O.T. Griffith, Ysgol Bodorgan: £1.

Derbyniwyd mil o 'frics' fel rhodd at atgyweirio Angorfa gan Gwmni Gwaith Brics Seiont (Butterley) Caernarfon.

Gyrrwch eich cyfraniadau i
'Apêl Angorfa', Banc y Midland, Llanberis


CYN TROI I BELLAFOEDD BYD — DEWCH I WELD Y *Marina* AR GARREG EICH DRWS.




CAR DA, DIOGEL DIBYNADWY. BRITISH LEYLAND AR EU GORAU! GWARANT 12 MIS – FAINT BYNNAG A DEITHIWCH

MAE GENNYM GEIR AIL LAW RHAGOROL HEFYD!

BRITISH LEYLAND Morris

GAREJ MINFFORDD BETHEL
FFÔN Y FELINHELI 451

T.R. & S. EVANS
GAREJ GWALIA CAEATHRO
Ffôn: CAERNARFON 3096



*Y Parch. Herbert Thomas, Llannor, cefnogwr mawr tîm pêl-droed Llanberis ac is-gadeirydd Cynghrair Caernarfon, yn derbyn anrheg o gloc llechen ar ei ymddeoliad gan rai o aelodau pwyllgor Tîm Pêl-droed Llanberis. (Llun:E.Davies).*

# BRYN REFAIL

**ANRHYDEDD DDYBLYG** – Dyna ddaeth i ran un o "hogia'r Clegir" gynt. Mae David Oliver Williams, mab Mrs. E. Williams, Llys Arfon, yn ddirprwy ysgrifennydd cyffredinol COHSE (Confederation of Health Service Employees) ac yn byw yn Llundain ers blynyddoedd. Anrhydeddwyd ef gan y Frenhines eleni pan dderbyniodd fedal arian y Jiwbili – teyrnged brin a roddir i rai a gyfrannodd yn helaeth yn eu maes. Ymhen mis union ar ôl hynny cyflwynwyd wats aur iddo gan yr Undeb am 22 mlynedd o wasanaeth dyfal. Llongyfarchwn ef yn fawr iawn.

**Y GYMDEITHAS** – Mae'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y gymdeithas yn ystod misoedd y gaeaf erbyn hyn wedi eu cwblhau. Bydd y cyfarfod agoriadol ar ffurf cyngerdd amrywiol Hydref 5ed. Ail-etholwyd y swyddogion am dymor arall: Llywydd: Mr. D.B. Ellis; Is-lywydd: Mr. R.W. Evans; Ysgrifennydd: Mr. I. Williams a'r Trysorydd: Mr. G.W. Williams.

**GWAELEDD** – Dymunwn adferiad llwyr a buan i Mr. John Ellis Penrallt a Mrs. Patricia Jones, Cae Coch – y ddau wedi bod yn Ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar.

**DOSBARTH WEA** – Bydd y dosbarth hwn yn cychwyn ar Fedi'r 28ain yn Festri'r Capel ac yn dilyn bob nos Fercher wedi hynny am ddeg darlith. Y pwnc trafod fydd "Y Traddodiad Gwerinol mewn Cerdd a Chân", a bydd y dosbarth yng ngofal Mr. Cledwyn Jones, Bangor. Manylion pellach gan Mrs. L.P. Williams, Godre'r Coed.

**PRIODAS** – Ddydd Sadwrn, Awst 13eg yng Nghapel MC Brynrefail, priodwyd Miss Gwenllian Owen, Tros yr Afon a Mr.John Norman Edwards o Lanberis. Gweinyddwyd ar y briodasferch gan ei chwaer Miss Dwynwen Owen a'r gwas oedd Mr. Bill Shedder (brawd yng-nghyfraith y priodfab) o Chicago. Gwasanaethpwyd gan y Parch. W.O. Roberts, Llanrug gyda Mrs. L.P. Williams, wrth yr organ. Bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn 20 Ystad Talybont, Llanrug.

**GEMAU GIAMOCS** – Cynhelir y gemau ddydd Sadwrn, Medi'r 3ydd un o'r gloch yng nghae chwarae newydd y pentref ger Pont Caledffrwd. Mae pedwar tîm yn barod ar gyfer y gornestau a bydd lluniaeth ysgafn yn cael ei ddarparu ar y cae. Gyda'r nos bydd Helfa Drysor yn cychwyn o'r Bont am hanner awr wedi saith.

**LLONGYFARCHIADAU** – Enillodd Anita Jones, Cae Coch gwpan Morris Bros., Cwm-y-glo ac hefyd gwpan Mrs. Williams, Y Gables, Caernarfon am addurno cacen Jiwbili yn Sioe Gogledd Cymru yng Nghaernarfon.



## GWASANAETH LLYFRGELL GWYNEDD

### Rhanbarth Arfon / Dwyfor

### CYFARFODYDD CYMDEITHASAU

Anogir Ysgrifenyddion Cymdeithasau o bob math yn ardal LLANBERIS i nodi yn *Dyddiadur y Llyfrgell* y gwahanol gyfarfodydd a gynhelir ganddynt yn ystod tymor 1977/78. Gellir, wrth wneud hyn, osgoi y gwrthdaro a all ddigwydd o gael mwy nag un Gymdeithas yn cyfarfod ar yr un dyddiad.

# LLYFRAU

## CYFRES Y LLEWOD

OS oes yna rieni yn y fro hon yn cael eu hunain yn yr un picil â minnau ar adegau o'r flwyddyn, hynny ydyw, "Be ar wynab y ddaear ga'i i'r hogyn neu'r hogan 'ma ar ei phenblwydd neu'i benblwydd?" Wel dyma un ateb i'ch problem – prynu Cyfres y Llewod iddynt, neu, os na fedrwch fforddio y gyfres, beth am eu prynu fesul un am 75c ac adeiladu'r gyfres. Mae deg llyfryn wedi eu cyhoeddi bellach ac mae'n rhaid dweud fod Dafydd Parri yn cael hwyl eithriadol. Mae'n un o'r ychydig lenorion Cymraeg sydd wedi llwyddo yn effeithiol i ymwthio i fyd y plentyn ac ysgrifennu yn rhugl mewn iaith ac arddull sy'n agos iawn at galon y darllenydd.

Y ddau lyfr olaf i'w cyhoeddi yw Rhif 9 – "Llewod yn Colli Menig" a Rhif 10 "Pum Cyfrinach y Llewod".

Prynwch nhw i gyd – y gyfres newydd anferth yma o nofelau antur i blant, a beth am ymuno â Chlwb y Llewod?

Cyhoeddwyd gan Y Lolfa, Talybont, Dyfed. Clawr Meddal – 75c yr un.

## ARCH NOA A RHAI O'R CREADURIAID

**DYMA a ddywed Dafydd Huw Williams am lyfr newydd John Roberts Williams, Llanrug.**

Ar yr unfed ar ddeg o Orffennaf 1977, fe ollyngwyd creaduriaid ARCH NOA yn rhydd ar Radio Cymru. Fe sgubodd yr hanesion am Ned Morus a'i gyfeillion, am wythnos gyfan, drwy'r wlad. 'Dyw Heddlu'r Gogledd byth wedi maddau i BBC Bangor. Heb sôn am ambell i flaenor Methodust o berfeddion Ynys Môn!

'Dachi'n gweld, dipyn o dwistars yw Ned Morus a'i griw. Hogia' clên ond cyfrwys, yn byw ar y gwynt a dyfeisgarwch, ac unrhyw beth sy'n digwydd bachu yn eu bysedd; – yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon. Eu prif fwynhad mewn bywyd yw rhoi dau dro am un i'r plisman, Parri Fawr. Ond criw amheus ac amharchus neu beidio, mae nhw'n werth i'w hadnabod, mae nhw'n gymeriadau lliwgar, gwahanol, sy'n fendigedig o fyw.

John Roberts Williams, cynbennaeth y BBC ym Mangor, fu'n gyfrifol am groniclo'r hanesion. Ond hwyrach nad ffrwyth dychymyg yw'r straeon a'r cymeriadau i gyd! Fe gewch chi gnoi cil dros y gosodiad yna. A chnoi cil uwchben y llyfr hefyd, wrth reswm.

Mae ysbryd yr Americanwr Damon Runyon i'w glywed yn piffian chwerthin yn barod – medda nhw. Chwerthin wnewch chwithau hefyd. Rowlio chwerthin yng nghwmni creaduriaid cyfrwys ARCH NOA.

Hogia' ar y naw yw Hogia'r Dre!

**Argraffwyd gan Wasg Gwynedd. Pris: 80c.**

## DDARLLEN'SOCH CHI HON?

**Gellwch fenthyca unrhyw un o'r llyfrau newydd yma o'ch llyfrgell leol neu'r llyfrgell deithiol:**

*T.M. Basset a B.L. Davies, (gol.):* **Atlas Sir Gaernarfon.**
*Emrys Edwards.* **Pesda i Mi.**
*Kate Bosse Griffiths:* **Byd y Dyn Hysbys.**
*Dyfnallt Morgan:* **Y Ferch o Ddolwar Fach.**
*Moc Morgan:* **Pysgota.**
*Dafydd Parri:* **Un Nos Lun.**
*Catrin Stevens.* **Arferion Caru.**

**B L. Davies** – Hugh Owen; **J.M. Edwards** – Y Crefftwyr; **John Emyr** – Enaid Clwyfus; **Geraint Jarman** – Cerddi Alfred St. **Idwal Jones** – Mr. Saceus a'i Sort; William Jones – Teithiau Wil **William Jones** – Teithiau Wil Tyddyn; **J. Selwyn Lloyd** – Breuddwyd yw Ddoe; **Pobl y Cwm; Marged Pritchard** – Cysgodion ar yr Haul; **Alwyn D. Rees** -- Ym Marn Alwyn D. Rees; **Gwilym O. Roberts** – Dryllio'r Holl Gadwynau; **John E. Williams** – Gwynt i Oen

## CYHOEDDIADAU MEI

Dyma gyflwyniad byr ac nid adolygiad fel y cyfryw i bedwar llyfr a ymddangosodd yn ddiweddar.

**GWIRION BOS!** *Gwynfor ab Ifor, Alice Williams a Dafydd Meirion. 48tud. 45c.*
Llyfryn clawr meddal sy'n llawn o groeseiriau a phosau diddorol. Cyhoeddiad delfrydol i ffanaticiaid Croesair *Yr Eco* ac un angenrheidiol i'r 'prentisiaid' fyddai'n elwa llawer o gael yr atebion yng nghefn y llyfr.

**GWIN A DIODYDD ERAILL.** *Elsi Wyn Jones. 64 tud. 60c.*
Llyfryn cynhwysfawr iawn sy'n cynnig 80 o risetau ar gyfer pob math o ddiodydd a'u defnydd mewn bwyd.

**DROS F'YSGWYDD** *Idwal Hughes. 80 tud. 70c.*
Trwy atgofion personol bywyd yr awdur cawn gipolwg gwerthfawr ar hanes cymdeithasol ei gyfnod, sef o ddechrau'r ganrif ymlaen, yn ardal Talysarn a Than'rallt ar lawr chwarelyddol Dyffryn Nantlle. Dilynwn ef ar ei hynt i Ganada i weithio ac yna yn ôl i fro ei febyd ar ddechrau'r 30'au. Mae'n cynnwys nifer o enwau ei deulu, cyfoedion, athrawon, gweinidogion ac yn ymdrin â'r holl hanesion yn gryno ac mewn arddull ymgomiol.

**CHOELIA TI BYTH** *Deirdre Sanders, Dick Girling, Derek Davies, Rick Sanders. 112 tud. 90c.*
Dyma'i ragarweiniad: "Dyma gasgliad o ffeithiau hollol ddiwerth a hynod ddiddorol...... sy'n cynnwys amrywiaeth anhygoel o ffeithiau diddiwedd'. Llyfr a allasai'n hawdd fod yn gyfrwng i ddechrau traddodiad o ymchwiliadau dirifedi i faes toreithiog y di-werth. Peidiwch â bod ar ôl – mae'n werth (?) i'w brynu.

Da o beth yw gweld mwy a mwy o ddeunydd darllen ysgafn, amrywiol a phoblogaidd ar gael yn Gymraeg. Mae cyhoeddwr fel Dafydd Meirion yn haeddu pob cefnogaeth mewn maes arloesol, i bob pwrpas.



*Rhai o blant Ysgol Gynradd Llanrug yn eu gwisgoedd Dawnswyr Morris wedi mynd i Gapel Tegid, Bala i weld priodas eu cyn-athrawes, Miss Gwenan Edwards a Mr. Bryn Williams.*

# YM MYD MODURO



**OS byddwch yn newid plwg tanio sydd yn gorffwys ar gasged (gasket seat), gofalwch fod honno'n lân. Rhowch ddiferyn o olew tenau ar sgriw y plwg, a'i dynhau â'r bysedd. Dilynwch hyn efo CHWARTER TRO gyda sbaner plwg addas.**

Os mai plwg tapr (taper-seat), heb gasged ydych yn ffitio, gofalwch eto am lendid yr orffwysfan, a'r ychydig olew ar y sgriw. Tynhau eto â'r bysedd, a chan ofalu fod y sbaner plwg yn un priodol, tynhewch. DDIM MWY NA 1/16 o dro.

Gall peidio cymryd y gofal manwl, ond syml yma ynglŷn â thyndra plygiau arwain i broblemau costus.

# CHWEDLAU'R FRO

gan JOHN OWEN HUWS

**AR WAHÂN i dwnelau cynllun trydan-dŵr Dinorwig heddiw, digon prin yw ogofâu ardal yr *Eco*. Cyfeiriais at rai eisoes, megis ogof y Tylwyth Teg o dan Lyn Dwythwch a Moel Eilio; Ogof Llanciau Eryri ar y Lliwedd ac Ogof Arthur uwchlaw'r Marchlyn. Gyda llaw, dywed hen drigolion Betws Garmon mai yn nannedd Craig Cwm Bychan y mae'r ogof. Mae un peth yn sicr, – ofer fu fy nghais i i'w chanfod!**


Dywed rhai fod twnnel o Gastell Dolbadarn a'i fod yn dod allan ger Gwesty Fictoria. Ei bwrpas oedd cynnig dihangfa i warchodwyr y castell os caent eu 'gwarchae. Rai blynyddoedd yn ôl adroddodd hen wraig o Lanberis wrthyf fel y byddai modryb iddi'n arfer taro rhan arbennig o'r llwybr at y castell a chlywed sŵn gwag oddi tano. Rhaid fod y twnnel yn rhedeg i ddau gyfeiriad oherwydd dywedai chwarelwyr Dinorwig y medrent weld ceg twnnel o dan ddŵr Llyn Peris o'r chwarel gyferbyn ar adegau arbennig.

Un o ogofâu hynotaf yr ardal yw Ogof Cidwm, ar Gastell Cidwm – craig anferth uwchlaw Llyn Cwellyn. Mae dwy chwedl am Cidwm. Dywed un mai mab Elen Lueddog oedd Cidwm a'i fod yn gymeriad eiddigeddus a chas. Casâi ei frawd ieuengaf, Ifan, a cheisiodd ei ladd lawer gwaith. Un diwrnod 'roedd Elen yn arwain ei byddin heibio'r graig hon ac Ifan yn amddiffyn yr ôl-fyddin. Yn sydyn gwelodd rhywun Cidwm yn anelu saeth at ei frawd a bloeddiodd "Llech yr olaf ym min y ffordd". Ond 'roedd yn rhy hwyr. Lladdwyd Ifan ac aed â'r neges at Elen, a oedd filltiroedd i ffwrdd erbyn hyn. Pan glywodd, dywedodd, "Croes awr yw hon i mi." Bydd y cyfarwydd yn gweld fod y chwedl hon yn esbonio tarddiad nifer o enwau – Castell Cidwm; Llech yr Ola'; Minffordd a Chroesor.

Dywed yr ail chwedl mai cawr a lleidr-pen-ffordd oedd Cidwm a bod ganddo ogof ar wyneb ei graig lle cuddiai ei ysbail. 'Roedd llwybr bregus yn arwain at geg yr ogof. Dywedid fod yr ogof yn mynd drwy'r Mynydd-fawr a bod mynedfa arall iddi uwchlaw'r Fron. Gorchuddid y fynedfa hon â charreg hirsgwar, naddedig. Erbyn hyn cwympodd y llwybr ar wyneb Castell Cidwm ac ni ŵyr neb lle mae ceg yr ogof. Fe ganfuwyd y fynedfa arall gan hen chwarelwr un tro. Nid oedd ganddo erfyn i godi'r garreg a gan y gobeithiai gael trysor Cidwm, rhuthrodd adref. Bu'n chwilio'n ofer am oriau wedyn ond ni welodd y garreg. Mae'r garreg yn dal heb ei chanfod hyd heddiw, fel y Gadair Aur uwchlaw Rhiwlas.



*Brenda "Boyce" Roberts yng Ngharnifal Llanberis. (Llun: E. Davies)*



*R. Wilde enillydd Ras Fawr Pen yr Wyddfa. (Llun: E. Davies)*



*Len "Atlas" Jones yn dangos ei nerth yng Ngharnifal Deiniolen.*





*Len Orritt wedi piclo i Garnifal Cwm rhwng dwy gem yn Wimbledon.*

# MIRI'R CA

# LLAN



*Harri VIII a rhai o'i fodins anffodus yn gyrru*

# DEIN



*Tra'r oedd y byd yn chwilio ac yn chwilota am o hyd iddo yn Neiniolen!*


# CWM



*Gwell coesau yn fan hyn nag yn ffenest sio rhoi'r math yma o lun ar Dudalen 3!*

## RNIFALAU

## BERIS



au i lawr cefnau'r dorf yng Ngharnifal Llanberis




*Delan Owen a fu'n neidio i lawr ac i fyny i ennill iddo'i hun bencampwriaeth Carnifal Llanberis.*



*Mrs. Glass, Hostel Ieuenctid Llanberis, enillydd Adran y Merched ar ei ffordd i lawr ac yn mynd heibio un o'r dynion*

## OLEN



*Arlywydd Amin yn ystod yr haf, daeth 'Yr Eco'*



*Pawb yn canolbwyntio ar y "dybl tops" yng Nghranifal Deiniolen.*

## Y-GLO



*beil gigyddl Y cwestiwn a ofynnir yw a ddylid*



*Sharon Thomas yn ddigon o sioe yn ei gwisg Gymreig.*

# SIBRYDION o'r YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

### YMDDEOLIAD MISS VALMAI ROBERTS

Collodd Ysgol Brynrefail un arall o'r athrawon a fu'n gwasanaethu ynddi bron ers ei sefydlu yn Llanrug, trwy ymddeoliad Miss Valmai Roberts ddiwedd tymor yr Haf. Ar ôl bod yn dysgu Saesneg am rai blynyddoedd, penodwyd Miss Roberts yn Ddirprwy-Brifathrawes ym 1973, ac y mae hyn ynddo'i hun yn arwydd o'i safle a'r enw da a enillodd iddi ei hun.

Bwriadaf sôn yn bennaf am ei gwaith fel Dirprwy-Brifathrawes gan fod gennyf brofiad personol o'r cyfnod yma a hefyd dyma'r lle y cafodd Miss Roberts gyfle eangach i ymgymeryd â chyfrifoldeb. Y mae Miss Roberts yn berson o urddas naturiol, o ddiwylliant eang ac o safonau aruchel. Y mae ei gwaith fel athrawes a Dirprwy-Brifathrawes wedi adlewyrchu y rhinweddau hyn. Y mae gan blant amgyffrediad greddfol bron o wir natur unrhyw berson ac nid oes ryfedd fod Miss Roberts yn uchel iawn ei pharch ganddynt i gyd. Y genethod oedd ei chyfrifoldeb pennaf ac yr oedd ei gofal amdanynt yn fawr a hwythau yn ymddiried yn llwyr ynddi.

Rhaid dweud gair am ei dull o ymdrin â phlant. Ei phrif fwriad oedd diwygio plant trwy eu cael i ymresymu ynglŷn â'u hymddygiad a'u hagweddau ac i amgyffred safonau. Ni chlywais hi erioed yn dwrdio, ond yn hytrach yn siarad yn bwyllog ac yn rhesymol ond yn hollol gadarn ac effeithiol gyda disgyblion. Credaf fod gan lawer o enethod a fu ac sydd yn yr ysgol le i ddiolch i Miss Roberts am iddi ymdrechu i roi arweiniad cadarnhaol iddynt a fydd yn aros gyda hwynt am weddill eu hoes.

Gydag aelodau eraill o'r staff yr oedd bob amser yn fonheddig ac yn gyfeillgar ac nid oes yr un ohonynt nad yw yn ei hoffi a'i hedmygu. Y mae gennyf fi ddyled fawr iddi am ei theyrngarwch llwyr ac am gyngor doeth a gonest ar unrhyw fater a fuasai dan drafodaeth gennym.

Yn ei ffordd ddistaw, fonheddig ac urddasol ei hun, fe safodd Miss Roberts yn gadarn dros safonau uchel o warineb a moesoldeb. Yn hyn o beth fe fu yn esiampl i ni i gyd ac fe fydd ei dylanwad ar yr ysgol a'r ardal yn parhau yn hir.

Fe wn fod Miss Roberts yn edrych ymlaen at hamdden i ddilyn ei hamrywiol ddiddordebau diwylliannol ac y mae'n llwyr haeddu hynny. Fe wnaeth fwy na'i dyletswydd i'r ysgol hon ar hyd y blynyddoedd ac ni allwn fel ysgol wneud llai na diolch o galon iddi a dymuno'r gorau iddi yn y dyfodol.

Mr. W.E.Thomas (Prifathro)

### TRIPIAU

Yn ystod y gwyliau aeth 32 o blant yr ysgol a phedwar athro am 12 diwrnod i Lloret De Mar yn Sbaen. Yn ystod yr ymweliad bu amryw o'r plant yn gweld ymladd teirw yn Lloret. Aethant i gyd i Barcelona am y diwrnod, a hefyd buont yn ymweld â mynachlog ym Monserrat a ffatri 'champagne' yn y wlad. Cafwyd tywydd bendigedig yn ystod eu harhosiad a daeth pawb adref yn ddiogel, wedi torheulo'n helaeth.

# Carnifal Ddoe




*Ysgwn i ydych chi'n 'nabod rhywun yn y darlun yma? Llun o garnifal Llanrug ydi o tua'r flwyddyn 1912, ac yn eiddo i Miss Frances Williams a Mrs. Lily Clarke, Isgaer, Pontrhyddallt, a fu'n byw am gyfnod yn Nhŷ'r Ysgol, Bryn Eryr, lle tynnwyd y llun hwn. Mae eu chwaer, y diweddar Maggie Williams yn y llun wedi ei gwisgo mewn gwisg draddodiadol Gymreig a fenthycwyd yn arbennig ar gyfer y carnifal gan Mrs. Malan Jones, gynt o Benlon, Llanrug.*

# CWM-Y-GLO

**PÊL–DROED** – Gan fod yma bellach gae ar eu cyfer, balch iawn oeddym o ddeall fod tîm pêl-droed bechgyn Cwm wedi cael ei dderbyn i'r Gynghrair Iau (dan 15). Eu hyfforddwr yw Mr. Gwilym Williams, Bryn, diolch iddo am ymgymeryd â'r gwaith. Trefnwyd Helfa Drysor a Thaith Gerdded yn ddiweddar i helpu casglu arian at gael dillad cymwys i'r tîm. Pob lwc hogia'.

**MR. WILLIAM HUGHES** – Chwith oedd clywed am farw Mr. William Hughes (Tan y Graig gynt), ychydig fisoedd ar ôl ei briod. Un o wŷr 'Y Pethe' fu ef erioed, ac yn gefnogwr brwd i'r *Eco*. Derbynied ei fab a'r teulu i gyd ein cydymdeimlad.

**CYFARFODYDD AGORED** – Bwriedir cynnal dau gyfarfod agored yn y dyfodol agos. Y naill i godi Pwyllgor Neuadd, a'r llall i gefnogi Pwyllgor Cyllid Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979. Cyhoeddir y dyddiadau eto.

**MEWN YSBYTAI** – Mae Mrs. Carol Evans, 15 Dolafon mewn ysbyty yn Lerpwl a Miss O.P. Jones mewn ysbyty ym Mangor. Gyda'n dymuniadau gorau am wellhad buan, anfonwn ein cofion cynnes atynt.

**RHODD O FERCH** – Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Alwyn Morris, Glanbogelyn ar enedigaeth merch. Mae Delyth wedi cael croeso brwdfrydig iawn gan ei thri brawd Dilwyn, Gwyn a Dewi.

**WYTHNOS GARNIFAL** – Wedi dechreuad ardderchog gyda'r Gymanfa Ganu, cafwyd gweithgarwch pellach fel a ganlyn yn ystod yr wythnos garnifal:
**Llun:** gêm pêl-droed rhwng cadlanciau Penygroes a thîm o'r Cwm.
**Mawrth:** Noson o swper ac adloniant i'r pensiynwyr gyda'r Cynghorydd a Mrs. Francis Jones yn westeion. Cafwyd noson ddifyr dros ben yng nghwmni Myrddin a Rosalind, Llanberis, ynghyd â Susan a Delyth o'r Clwb Ieuenctid.
**Mercher:** Disgo yn yr ysgol ar gyfer plant dan 14eg oed. Mwynhawyd yn fawr.
**IAU:** Dartiau, Mr. Gwilym Williams, Bryn oedd y buddugwr yn rownd derfynol y dartiau, am yr ail flwyddyn yn olynol. Cyflwynwyd cwpan iddo ef a tharian i'w wrthwynebydd, Mr. Norman Jones. Derbyniodd Mr. Len Parry a Mr. Bryn Williams fedal am gyrraedd y rownd gyn-derfynol.
**Sadwrn:** Y Carnifal, arweiniwyd yr orymdaith gan Seindorf Cadlanciau Caernarfon, a dau barti Dawnswyr Morris Llanrug. Agorwyd y carnifal gan y Cynghorydd I.B. Griffith, Caernarfon a'r beirniaid oedd Mrs. I.B. Griffith a'r Cynghorydd a Mrs. Trefor Williams, Llanberis. Y westwraig oedd Mrs. D.G. Williams, Rheithordy, Llanrug, a'r 'MC' oedd Mr. Lloyd Owen, Dolafon.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn ddiffuant i bawb a gynorthwyodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y carnifal.

**EIN DYMUNIADAU GORAU** - i Mr. Alwyn Hughes, 2 Bryn Gro ar ei benodiad ar staff Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion, Powys.

I Mr. Berwyn Hughes, Hyfrydle yn ei swydd newydd fel Gweithiwr Ieuenctid yng Nghanolfan Gymdeithasol Noddfa Caernarfon.

I Miss Dilys Ann Jones, Meillionen a fydd yn dechrau cwrs yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth yn yr Hydref.

**LLONGYFARCHIADAU** – i'r rhai fu'n llwyddiannus yn arholiadau Ysgol Brynrefail Llanrug – Dilys Jones, Meillionen, Susan Owen, Talgwynedd, Sian Hughes, Bryn Gro, Jacqueline Allen, Min-y-Nant, Delyth Williams, Nant Forgan.

Llawenhawn hefyd fod tri o'r pentref wedi cael arddangos eu gwaith arlunio yn Eisteddfod Wrecsam – Arfon Jones, 24 Dolafon, Gwyneth Green, Llwyncoed Bach, a Delyth Williams.

**MERCHED Y WAWR** – Pleser yw cael llongyfarch Mrs. Lowri Prys Williams, Godre'r Coed – Is-lywydd ein cangen ar ei llwyddiant yn y Brifwyl. Enillodd y wobr gyntaf am gyfansoddi casgliad o ganeuon i blant rhwng chweth a saith oed. Athrawes ieuanc o Brynrefail yw Mrs. Williams, sydd ar hyn o bryd yn dysgu ym Methel. Yr ydym fel cangen yn ymfalchïo yn ei llwyddiant.

Dyma'r eildro hefyd i un a'i gysylltiad â'r Cwm ennill y Fedal Ryddiaith oherwydd yn 1973 y Parch. Emyr Roberts a fagwyd ym Mrynrefail oedd y buddugwr, ac eleni Mr. R. Gerallt Jones, cyn-Warden Coleg Llanymddyfri a mab i'r diweddar Barch. Richard Jones, Stryd Newydd a'i henillodd.

Mae'n fraint cael llongyfarch y tri.

**TRIP Y PENSIYNWYR** – Ar Orffennaf 16 aeth dau lond bws o bensiynwyr y pentre am drip i Landudno. A'r hin yn garedig mwynhaodd pawb eu hunain. Yn y siopau ac ar lan y môr. Ar ôl te dychwelwyd adref trwy fwlch Conwy gan aros am orig fer ym Metws y coed. Erbyn hyn mae rhoi gwibdaith i'r pensiynwyr yn rhan o raglen Merched y Wawr, a chesglir yr arian tuag ato trwy gynnal noson goffi, a gwerthu teganau a nwyddau.

Teimlir fod yr ymdrech yn werth ei gwneud pan welir pawb yn mwynhau eu 'diwrnod trip'.

Agorir y tymor nesaf gyda darlith gan Miss Mat Pritchard, ar Fedi 21.

# BETWS GARMON

**YMRYSONFA CŴN DEFAID** – Fe'i cynhaliwyd ar Awst 12 a 13, a bu'n llwyddiannus dros ben, gyda 120 o gŵn yn cymryd rhan, ar gae Ystrad Isaf, trwy ganiatâd caredig Mr. a Mrs. E. Owen. Y beirniad oedd Mr. Alwyn Owen, Llanberis.

I arbed gofod rhestrir yr enillwyr lleol yn unig.

**Dosbarth 2:** 1. J.G. Jones, Waunfawr; 3. E. Griffith, Waunfawr. **Dosbarth 3:** 2. a 6. Elwyn Griffith, Waunfawr
**Dosbarth 4:** 1.Elwyn Griffith, Waunfawr; 2. J.G. Jones, Waunfawr; 3. a 5: Emyr Evans, Betws Garmon; 4. Alwyn Williams, Waunfawr; 5. P. MacDonald, Waunfawr.

**Cwpan Coffa:** Elwyn Griffith.


**Enillwyr y raffl: £5:** Eirian Williams, Ty'n Weirglodd, Betws Garmon; **£4:** C. Williams, Afallon, Llanddaniel; **£3:** O. Williams, Gwynfa, Waunfawr; **£2:** M.G. Griffith, Bronallt, Waunfawr; **£1:** K.T. Jones, d/o Roberts, Y Felinheli.

Cyflwynwyd y cwpanau i'r enillwyr gan Mrs. Alan Jones, Eirian Williams a dynnodd y raffl.

Dymuna'r ysgrifennydd, Mr. H.O. Jones, Tŷ Coch ddiolch am bob cefnogaeth a gafwyd.

**GENI** – Ym mis Gorffennaf ganwyd mab i Alice ac Arnold, Ystradgynlais, ac ŵyr i Mrs. C. Pritchard, Bryn Derwen. Llongyfarchiadau iddynt.


**LLONGYFARCHIADAU** – i Emyr Jones, Tŷ Coch ar fod yn llwyddiannus yn Arholiadau T.A.U. yn Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon. Bydd yn dechrau ar gwrs yng Ngholeg Glynllifon ym mis Medi a dymunir y gorau iddo.



**Dathlodd Mr a Mrs O. H. Jones, Llwyn Onn, Ffordd yr Orsaf, Llanrug eu priodas aur yn ystod y mis a aeth heibio. Ein dymuniadau gorau iddynt.**



**1924: Gweithwyr Sinc Twll Clawdd Chwarel Dinorwig. (Llun trwy garedigrwydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru). Bydd rhaglen 'Y Chwilotwyr' dan y pennawd 'Y Chwarel' yn cael ei dangos ar BBC Cymru nos Fawrth, Medi 20fed, ar ôl Heddiw. Y panel fydd, yn ôl eu trefn ar y sgrîn: Dr. Merfyn Jones,Penygroes a Lerpwl; Hugh R. Jones, Llanberis; Eigra Lewis Roberts; W.D.Williams, Y Bermo.**



### DRAENOGESAU DAN DWYMYN

Oddi wrth chwaer-ddraenoges o'r fro hon sy'n nyrsio yn un o ysbytai mwya' Manceinion daeth y wybodaeth bod tair merch yn dioddef o'r 'typhoid' oherwydd y toriadau ar wario yn y gwasanaeth iechyd.

Gwnaeth doctoriaid brofion ar y merched gan ddefnyddio tiwb a ddefnyddiwyd o'r blaen i archwilio merch oedd yn dioddef o'r dwymyn.

Mae'r tiwbiau plastig, sy'n costio tair punt yr un, yn amhosib' eu diheintio, ac fe ddylid eu lluchio ar ôl eu defnyddio unwaith. Er mwyn arbed arian rhaid oedd trio'u golchi â llaw a'u hailddefnyddio.

**Ôl-nodyn: Yr un wythnos gwerthwyd un fflat yn Hyde Park, Llundain am £1,000,000. Mae ynddo 17 ystafell wely, 6 lolfa a deg ystafell 'molchi. Mae Draenog yn dechra' meddwl bod 'na rywbeth mawr o'i le ar y ffordd mae'r gymdeithas ddynol yn cael ei rhedeg.**

**Clywyd yng Nghwm-y-glo oddeutu'r seithfed o Fehefin – "Pwy uffar ydi'r Dic Cae Rhedyn 'ma mae pawb isio fi chwifio fflag arno fo?"**

Sbiwch yn y Deli Post bob nos Sadwrn dan Televis Eireann ac mi welwch "9.45 Late, Late, Show". Neud fi deimlo'n rel rafin ar Maes am 10.30!


## Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant


**Llanberis**

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

**MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS NEU GINIO BLYNYDDOL**

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



# LLANBERIS

**DIOLCH** — Dymuna Janice, merch Mr. a Mrs. Gilbert Jones, 7 Rhes Cambrian ddiolch i'w pherthnasau, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a dderbyniodd pan yn Frenhines y Carnifal, eleni.

Dymuna Alwyn a Sian Thomas, 'Foelas', Stryd Newton ddiolch i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag at eu mab Euron tra fu yn Ysbyty Minffordd, Bangor.

**LLONGYFARCHION** — i Gwenda Jones, 39 Stryd Newton ar ddathlu ei phenblwydd yn 21ain, ac i Deirdre Morris, Maes Padarn ar ddathlu ei phenblwydd yn 18aw.

**GWAELEDD** — Dymunir adferiad buan i Mrs. Carys Hughes, Stryd Ianci a Mrs. Barbara Owen, Garthmaelog, sydd yn yr ysbyty ac i Mrs. Menna Jones; Mr. Selwyn Pritchard, Madryn; Euron Thomas, Foelas; Heath Addie, Goleufryn; Mr. Bob Jones, 31 Stryd Newton a Mrs. Owen, 32 Stryd Newton, sydd newydd ddod oddi yno.

Hefyd i Mrs. Ellen Parry, 8 Stryd Turner, sydd wedi anafu ei throed.

**MARWOLAETH** — yn ystod y mis bu farw tri aelod o'r gymdeithas: Mrs. Alice Davies, Bodfryn, Mr. Cyril Griffiths, 53 Maes Padarn a Mrs. Smith (Padarn Lake gynt).

Cydymdeimlir yn fawr gyda'r teuluoedd oll, yn eu profedigaeth.

**ADREF O'R AMERICA** — Croeso adref i Mrs. Sheila Shreder a'i merch fach Susan o Chicago. Mae Mrs. Shreder yn ferch i Mr. a Mrs. W. Edwards, Stryd Bethesda.

**STÔL BREN** — wedi ei gadael ar lorri — 'Band Robinsons Jam', diwrnod Carnifal ; a wna ei pherchennog ei nhôl i 'Glenthorne', Stryd Newton. Diolch.

**LLONGYFARCHION** — Emrys Jones, 'Grove House', sydd wedi derbyn tystysgrif 'City & Guilds' mewn printio.

Hefyd i fechgyn a genethod y pentref am eu llwyddiant yn yr arholiadau lefelau 'A' ac 'O' a 'CSE'.

**LLONGYFARCHIADAU** — a dymuniadau da i Sheila a Deryck Beatton, Llanfairpwll ar enedigaeth eu merch fach Sharon, wyres gyntaf i Mr. a Mrs. Richard Jones, 30 Maes Padarn.

I Mr. a Mrs. J.N. Edwards, Llanrug; Mr. a Mrs. Rainbow, Stryd yr Wyddfa a Mr. a Mrs. Hughie Griffith, Bryn Teg, ar ddechrau eu bywyd priodasol.

Ac hefyd Mr. a Mrs. Reg Roberts (Dol Elidir) a Mr. a Mrs. Howyn Jones, (Dolperis).

**DIOLCH** — Dymuna Gwyneth Jones a'r teulu yn Llythyrdy, Llanberis ddiolch o galon i blant Llanberis am y cloc a'r plac a drosglwyddwyd ar eu rhan gan Mrs. M. Bryn Hughes, ddiwrnod y Carnifal. Diolch iddi hefyd am ei geiriau caredig a'i dymuniadau da i Gwyneth.

Hefyd manteisiwn ar y cyfle hwn o ddiolch i bawb o Lanberis a'r ardal a fu mor garedig wrthi ac am eu rhoddion niferus iddi. Mae eich caredigrwydd wedi bod yn galondid mawr i ni fel teulu. Mae'n dda gennym ddweud ei bod yn gwella yn foddhaol.

**CYDYMDEIMLAD** — Ar ôl gwaeledd hir bu farw Mr. R. Williams, Stryd y Ffynnon. Mae cydymdeimlad y fro yn mynd i'w briod a'r teulu oll.

Hefyd ein cydymdeimlad llwyraf â phriod a theulu Mr. T. Jones, East Lynne, Stryd Fawr.




**CARNIFAL LLANBER**

Esme bach oedd mam ni oll
C'nafon mewn croen cyn futrad a moch
Trwsus ragsiog at ben glin
Doedd ddim rhyfedd fod mam yn flin
Dyrnodd ni gyd ar hyd y daith
Nes i'n llefrith droi ynllaith

Cwffio a nadu a bloeddio bob cam
Ond 'roeddym ni gyd yn 'don't care a damn'
Llechio dŵr ar ben y crowd
Byth angofiaf 'our day out',
Gwelodd neb erioed ni mor flêr
'Ond yn Carnifal Llanbêr'.

G.P.



*Mrs. Williams, Buarth y Berran, Deiniolen yn bwydo'r fules — mam y cyw bach sydd yn y llun. Ei berchennog yw Mr. Tim Frazer Jones, Deiniolen.*


# Bryn Moelyn Llanrug

*Datblygiad o Dai Ar-wahan*



arthur £12,485
3 Lloft

rhys £10,160
2 Lloft

hefyd
Llywellyn
4 Lloft

Ewch i'w gweld ar y safle (ffôn Caernarfon 3157)
Neu anfonwch at
Cymrodyr Hiraethog
Y Gelli Llansannan Clwyd
Ffôn Llanynys 236 & Llansannan 653

# NANT PERIS

**YMDDIHEURAD** — i wragedd ifanc y pentref am i ni anghofio diolch iddynt yn y rhifyn diwethaf am eu gwaith yn trefnu te Jiwbili i'r ardal. Derbyniwch ein diolch am weithio mor galed i gasglu arian a pharatoi gwledd ar ein cyfer a'r anrhegion i'r plant. Diolch hefyd i'r ardalwyr am eu cefnogaeth ariannol i'r merched i hwyluso eu gwaith.

**CYFARCHION PEN BLWYDD** — i Mrs Gwladys Edwards, Ty'n Twll ar gyrraedd ei 82 mlwydd oed ar y 10fed o Orffennaf. Dymunwn iddi eto lawer blwyddyn yn ein plith.

Hefyd i Mrs. Janet S. Jones, Elidir ar ddathlu ei phenblwydd yn 86 mlwydd oed ar Awst 31. Ein dymuniadau gorau i chwithau hefyd Mrs. Jones.

**GWIBDAITH YR YSGOL SUL** — ar yr 20fed o Orffennaf aeth trip yr ardal i'r Rhyl a chafwyd diwrnod da a phawb wedi mwynhau ei hun a phriodol iawn yw geiriau Mr. R.E. Jones cyn brif-athro Ysgol Dolbadarn i ddisgrifio'r diwrnod:

**"Dod o lan y môr**
**dod efo trip y lle**
**A phawb am y gore yn canmol y trip**
**Trip, trip, trip, Hwre!"**

**LLWYDDIANT** — Llongyfarchiadau calonnog iawn i Mr. Meirion W. Pritchard, Ty Isaf am ei lwyddiant mewn 3 sioe yn ystod yr wythnos diwethaf.

Yn Aberystwyth enillodd yr 2ail wobr gyda dafad a'r 4ydd wobr gyda hwrdd. Yn Eglwysbach cafodd yr 2ail a'r 3ydd wobr gyda hyrddod ac yng Nghaernarfon enillodd y wobr gyntaf, yr ail, y drydedd a'r bedwaredd wobr gyda hyrddod. Bob clod iddo ar ei lwyddiant.

**LLONGYFARCHIADAU** — i Elfyn Williams, Pennant ar ei lwyddiant yn ei arholiadau lefel 'O'. Ein dymuniadau gorau i Elfyn am y dyfodol.

Er nad yw Elwyn S. Jones yn cymryd ei arholiadau Lefel 'O' am flwyddyn arall, llongyfarchwn yntau ar ei lwyddiant yn yr Arholiad Lefel 'O' mewn Gwybodaeth Ysgrythurol eleni. Da iawn Elwyn.

**CROESO ADREF O'R YSBYTY** — i Miss Rowena Thomas, Bron Wyddfa ar ôl cael llawdriniaeth. Da yw cael dweud fod Rowena yn gwella ac y cawn ei gweld yn mynd o gwmpas eto. Llongyfarchion iddi hefyd, er yn hwyr, ar gael dyrchafiad yn ei gwaith. Pob dymuniad da a phob llwyddiant eto i'r dyfodol Rowena.

Croeso hefyd i Mrs. Anne Pleming. Bu hithau hefyd yn Ysbyty Môn ac Arfon am ychydig a da ei gweld hithau yn gwella yn foddhaol.

Bu i nifer ohonom o'r Nant gael blasu'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam ac er gwaetha'r llwch bu i bawb fwynhau eu hunain. Fel y gwyddoch, yng Nghaernarfon y cynhelir yr Eisteddfod yn 1979, ac yn ystod y mis yma bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal i ddewis Pwyllgor Lleol. Prif waith y Pwyllgor fydd codi arian yn y Nant tuag at Gronfa'r Eisteddfod.

**DIOLCHGARWCH** — Carem fel ardalwyr ddiolch i'r cyfeillion hynny sydd y dyddiau yma yn tacluso y ddwy fynwent. Ni fynnant i ni roi eu henwau yn yr *Eco* ond derbynned bob un ohonoch ein diolch diffuant am eich gwaith da, ac efallai y bydd eich esiampl yn symbyliad i eraill i roddi help llaw.

**CARNIFAL** — Cynhaliwyd carnifal y pentref nos Wener, 22ain o Orffennaf yng Nghae Tŷ Isaf. Er gwaethaf y tywydd hyd yn hwyr y prynhawn parhaodd yn sych i gynnal y mabolgampau a'r 'Gwisg Ffansi.' Arweinydd y noson oedd Mr. T.J. Roberts, Llys Awel a beirniad y Wisg Ffansi oedd y Frenhines Janice, Llanberis, Mr. a Mrs. W. Aaron, Cwm Eilir a'r Parch. H.V. Hughes, gweinidog Jerusalem. Arweinwyd yr orymdaith gan Seindorf Arian Llanberis a mwynhawyd hefyd ambell gân yn ystod yr hwyl a'r stŵr. Diweddglo braidd yn swnllyd a gwlyb a gafwyd — 'Tug of War' ar draws yr afon ac ambell un wedi cael mwy na throed gwlyb.

Gwnaethpwyd elw o £45.38 a bwriedir gwario peth o'r arian ar y plant drwy drefnu trip i Bantomeim neu rywbeth cyffelyb ddiwedd y flwyddyn yma.


Hoffai'r trefnydd ddiolch i bawb am eu cefnogaeth

Ein diolch arbennig i'r ysgrifenyddes Mrs. Brenda Roberts, am ei llafur yn trefnu a chasglu'r gwobrau ac arian, a'r rhai a fu'n trefnu'r cae ar gyfer y mabolgampau. Diolch yn fawr i bawb.

**TRIP I GANADA/**
**TRIP I JAPAN**


**A HOFFECH chi drip i Ganada am dair wythnos mis Awst nesa'? Ymweld â'r prifddinasoedd yno a thaith mewn tren drwy'r Mynyddoedd Creigiog.**

**Neu efallai y carech daith i Japan dros y Pasg. Os oes diddordeb gennych dowch i gysylltiad â *Selwyn Griffith, Crud yr Awen, Bethel.* Dyma gyfle godidog i gael teithio'r gwledydd hyn hefo criw o Gymry Cymraeg. Bydd y trip i Ganada yn mynd ar ôl y Steddfod Genedlaethol.**



**Ew mi rydw i'n gysglyd bob bora dydd Mercher y dyddiau yma. Aros ar y 'nhraed ydw i i weld rhaglen "Bywyd" Gwyn Erfyl — ac ma'r diawlad yn dangos y rhaglen rong bob tro. Mae o'n deud yn ddigon clir yn y Deli Post bob dydd Mawrth "10.30 Gwyn Erfyl in Movieland" — finna'n disgwyl gweld Welsh Ffargo neu Mici Myws Cymraeg ond does dim ond capel a iaith hyd y gwela i. Ffôls pretensus hwnna ydio!**


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI
Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans


# COFIO CYN-BRIFATHRO

gan

Y PARCH. W. O. ROBERTS

**Y GAIR cyntaf a ddaw i feddwl dyn wrth gofio am Mr. G. T. Roberts M.A., cyn-brifathro Ysgol Llanrug, ydyw'r gair 'Gwasanaeth'. Cafodd oes faith o yn agos i 90 o flynyddoedd, ond nid amlder ei flynyddoedd sy'n taro dyn, ond y ffaith iddo lenwi'r blynyddoedd hynny hyd yr ymylon â gwasanaeth gwerthfawr a chydwybodol i'w gyd-ddynion mewn llu o wahanol gyfeiriadau.**

Dechreuodd ei yrfa fel chwarelwr yn Nyffryn Nantlle, ac yr oedd ganddo gydymdeimlad a pharch i'r gweithiwr cyffredin ar hyd ei oes. Er ei fod yn ŵr o alluoedd anghyffredin, ac er iddo ennill llawer anrhydedd ar sail hynny, nid oedd rithyn o snobeiddiwch yn agos ato. Ar hyd ei oes rhodiodd lwybrau syml y gwerinwr cyffredin gyda gostyngeiddrwydd cymeriad gwir fawr.

Ni ellir mewn cwmpas byr nodi'r gwasanaeth a roddodd Mr. G.T.Roberts mewn llu o wahanol gylchoedd. Ei brif gyfraniad, wrth gwrs, ydoedd ei gyfraniad fel athro mewn nifer o ysgolion, ac yn arbennig yn Ysgol Llanrug. Yr oedd wedi ei eni i fod yn athro. Ar ôl iddo adael y chwarel cafodd hyfforddiant trylwyr ar gyfer galwedigaeth ei fywyd yn Ysgol Clynnog, Coleg y Brifysgol Bangor a'r 'London School of Economics'. Enillodd radd M.A. Prifysgol Cymru am waith ymchwil ar Ddafydd Ddu Eryri. Parhaodd i wneud gwaith ymchwil ar hyd ei oes. Y mae cenedlaethau o blant yn ddyledus iawn iddo am iddo roddi iddynt sylfaen gadarn a diogel i'w haddysg. Rhoddodd gymorth gwerthfawr hefyd i lawer efrydydd mewn coleg a ddaeth ato i geisio adnoddau a chyfarwyddyd ar gyflawni ei waith ymchwil ei hun. Nid oedd ball ar ei awydd i helpu pawb a ddeuai ar ei ofyn. Mynnai, nid yn unig gasglu gwybodaeth, ond ei rhannu hefyd â phawb oedd yn barod i'w derbyn. Cynhaliodd ddosbarthiadau WEA ar 'Hanes Lleol' yn yr ardal am lawer blwyddyn. Braint i aelodau'r dosbarthiadau hynny oedd cael gŵr o'i safon ef yn athro iddynt.

Enillodd droeon yn yr Eisteddfod Genedlaethol am draethodau yn ymwneud â hanes Cymru. Llawenydd iddo, wythnos cyn ei farw, oedd ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam am gasgliad o Englynion Coffa.

Bu Mr. Roberts yn ddyn hynod o brysur ar hyd ei oes, ond nid oedd yn rhy brysur i roddi sylw i'r ochr ysbrydol i fywyd. Yn wir, ei grefydd oedd sylfaen ei holl weithgareddau eraill. Rhoddodd wasanaeth mawr i Henaduriaeth Arfon. Bu yn ei dro yn Llywydd yr Henaduriaeth, a gwnaeth y gwaith hwnnw gydag urddas a graen. Bu am flynyddoedd yn aelod byw a gwerthfawr o Bwyllgor Gwaith Cyngor Eglwysi Efengylaidd Gogledd Cymru. Yr oedd yn gefnogydd cadarn i Achos Dirwest, a bu'n ddiflino yn ei ymdrech i gasglu at Gymdeithas y Beiblau o flwyddyn i flwyddyn.

Rhoddodd wasanaeth arbennig i Eglwys Capel Mawr Llanrug fel blaenor ac ysgrifennydd medrus a gofalus. Bu ei arweiniad doeth a'i safiad pendant dros yr hyn oedd yn iawn, costied a gostio, yn ysbrydiaeth i lawer ac yn esiampl ddisglair i bawb o'i gydaelodau. Yn y Seiat a'r Cyfarfod Gweddi y gwelid G.T.R. ar ei orau. Ni chododd erioed i siarad mewn Seiat heb fod ganddo rywbeth gwerth i wrando arno — rhywbeth oedd yn gywaith o athrawiaeth gadarn a gras Duw. Pan fyddai ef yn arwain cynulleidfa mewn Cyfarfod Gweddi, byddai ei weddïau bob amser yn hynod o ddwys ac ysbrydol. Oedd, yr oedd G.T.R. yr ysgolhaig a'r trefnydd yn sant cywir hefyd. Gellir crynhoi'r disgrifiad o Mr. G.T.Roberts mewn pum gair: Dyn Golygus — yr oedd yn ddyn hardd o gorff,— 'roedd yn gymeriad golygus a hardd hefyd; Dyn Gonest — yr oedd yn hollol ddidwyll ymhob peth, a mynnai i eraill o'i gwmpas fod yn ddiffuant. Ni allai oddef anonestrwydd mewn dim. Dyn Gwasanaethgar; Dyn Galluog, Gostyngedig. Yn goron ar ei holl wasanaeth a'i ddoniau, yr oedd ei ostyngeiddrwydd mawr, — gostyngeiddrwydd cymeriad gwir fawr.

Bu farw Awst 17 yn 89 mlwydd oed, a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Llanrug Awst 20, pryd y cafwyd Gwasanaeth Coffa yn y Capel Mawr. Cymerwyd rhan yn ei angladd gan ei weinidog Y Parch W.O.Roberts, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch W.J. Thomas, Caernarfon.

Y mae cydymdeimlad ardal gyfan â'i briod, Mrs. K.Roberts, Erw Gain, Llanrug a'i ferch, Mrs. Enid Griffith, Bangor yn eu profedigaeth. Nerthed yr Arglwydd hwy ymhob peth.


CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

# DEINIOLEN



*Yr Hen Ysgol Babanod, Deiniolen (lle mae'r Clinic yn awr) 1929. Athrawes oedd y diweddar Miss E. Thomas, 12 Ffordd Deiniol, Deiniolen. Darlun trwy garedigrwydd Mrs. M.C. Jones, Tan y Caerau, Clwt-y-bont.*

**CYDNABOD** – Dymuna Mrs. A. Rees Owen, 5 Ffordd Deiniol, gydnabod y rhoddion gwerthfawr a'r cyfarchion gwresog dderbyniodd yn ystod ei anhwylder diweddar. Llawenydd i'r pentrefwyr yw gweld bod Mrs. Rees Owen yn ad-ennill nerth a'i bod eto'n llwybro yn ein plith gyda'i hynawsedd arferol.

**APÊL GWAUN GYNFI – Eisteddfod Genedlaethol 1979** – Cyferfu cynrychiolwyr yr Apêl uchod deirgwaith eisoes, ac mae'r brwdfrydedd amlygwyd yn y cyfarfodydd hynny yn argoeli yn dda y gwneir ymdrech lew i gyrraedd y nod o £2,900 osodwyd ar ein cyfer fel pentrefwyr.

Disgwylir cynulliad lluosog yng nghapel Ebenezer am wyth o'r gloch nos Sul, Medi 4ydd, pryd y bwriedir lansio'r ymdrech leol trwy gynnal Cymanfa Ganu dan lywyddiaeth y Parch. Eryl Lloyd Davies, gyda Mr. Irfon Ellis yn arwain, ac eitemau yn cael eu cyflwyno gan Merfyn a Rosalind Owen, Llanberis. Gwnewch ymdrech arbennig i fod yno i dreblu'r gân ac uno yn y moliant.

Y nos Lun dilynol bwriedir cychwyn ar ymgyrch i alw ym mhob cartref yn y pentref i wahodd addewidion ariannol at y Steddfod, ac mae'r cynrychiolwyr yn hyderus y bydd croeso iddynt ar aelwydydd Cymraeg a di-Gymraeg ein bro. Ar wahân i drefnu nosweithiau coffi, gyrfaoedd chwist a'r tebyg, mae trefniadau ar y gweill i gynnal cyngherddau gan dalentau'r ardal, arddangosfa celf a chrefft, gan ganolbwyntio ar gynnyrch y diwydiannau lleol sydd wedi eu sefydlu yn ein plith yn ddiweddar yn ogystal â gwaith llaw disgyblion ysgol a phentrefwyr hŷn. Mae'r Cynrychiolwyr yn cnoi cil ar hyn o bryd ar y priodoldeb o godi arian trwy gael rhai wedi eu noddi am symiau o arian i ymgymeryd â'r gwaith o dacluso safle'r Hen Ysgol yn Ffordd Deiniol, a rhai llecynnau eraill aflêr ein pentref. Ceir rhagor o fanylion yn yr *Eco* maes o law, yn y cyfamser, gwahoddir unrhyw awgrymiad gwreiddiol tuag at chwyddo'r gronfa.

**LLONGYFARCHIADAU** – cywir a'n dymuniadau gorau yn eu hastudiaethau pellach i'r rhai hynny o'n pobl ifainc fu'n llwyddiannus yn Arholiad Lefel 'A' a Lefel 'O' eleni. Hyfrydwch yw clywed am eraill o'n hieuenctid yn llwyddo i gael eu dewis swyddi heb orfod gadael cartref i'w cael. Cynydded hynny!

**CYDYMDEIMLO** – Mis gwyliau ac ysgafnder yw Awst arferol, ond hir gofir y cwmwl ddaeth trosom yn ystod yr wythnos yn cychwyn Awst 14eg eleni, pryd y collwyd trwy farwolaeth tri cymeriad bonheddig ac annwyl o'n plith. Cydymdeimlwn â theuluoedd a ffrindiau'r diweddar Mrs. Maggie Thomas, 2 Bron Helen, Mr. Griffith Peris Roberts, 64 Pentre Helen a Mrs. Alice Griffith, 2 Tai Caradog.

**PLAID CYMRU** – Mwynhawyd Taith Ddirgel diddorol iawn nos Sadwrn Gorffennaf 16eg wedi ei threfnu gan Mr. Meirion Jones a Mr. Gwyndaf Roberts. Ymwelwyd a Phlas Gwyn, Pentrefelin, Cricieth, a chafwyd pryd o fwyd yno. Yn ystod y daith enillodd amryw o'r aelodau wobrwyon hael wedi eu rhoddi trwy garedigrwydd Meirion Jones. Y prif enillydd oedd Mrs. Mem Williams, Bron Helen, Clwt-y-bont. Llongyfarchwyd Mr. a Mrs. Andro Griffith, Dinorwig ar ddathlu 30 mlynedd o fywyd priodasol, ac ar yr achlysur cawsant 'Botel o Sherry'. Diddorwyd yr aelodau ym Mhlas Gwyn gan Mr. Edwin Pritchard, a'i ffrindiau o'r Garn trwy gael cân a straeon digri. Diolchir i'r ddau drefnydd am noson fywiog.

**Y SEINDORF** – Prysur iawn fu hanes y Seindorf yn ystod misoedd yr haf. Buont yn gwasanaethu mewn llawer Carnifal, ac hefyd buont yn chwarae o flaen y Frenhines ym Mangor. Uchafbwynt y gweithgareddau oedd dod yn ail – un pwynt tu ôl i Seindorf Bwcle yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam.

Yn ddiweddar pwrcasodd y Seindorf set deledu lliw, sydd erbyn hyn wedi cael ei derbyn yn Ysbyty Gallt-y-sil, ac mae diolch y Seindorf yn fawr i bentrefwyr Deiniolen a'r pentrefi cyfagos am wneud hyn yn bosib.

## TEYRNGED I JOHN MORRIS GAN ROL WILLIAMS

**MAE'N ANODD, anodd dygymod â'r ffaith na welwn mo John Morris yn ein plith eto.**

Er iddo symud o'r fro hon i Lŷn, nid anghofiodd John ei wreiddiau na'i gefndir yn y Fachwen a Brynrefail. Cadwodd ei gysylltiadau â'r hen ardal; dôi trosodd yn aml i weld ei deulu a'i ffrindiau, a braint i mi oedd cael fy nghyfrif ymysg y rhai hynny. Buom yn gyfeillion mynwesol am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac er i ni 'newid bro', fe gadwyd y cwlwm yn dyn drwy gyd-gyfarfod yn rhywle neu'i gilydd. Yn wir, felly'r oedd y trefniant i fyny i'r wythnos olaf un, a chawsom ein sgwrs olaf ar y teleffon y noson cyn ei farwolaeth annisgwyl.

Gŵr amlochrog, amryddawn oedd John – gŵr a amlygodd ei hun mewn sawl agwedd o fywyd cymdeithasol a diwylliannol. Cristion, cymwynaswr, sosialydd, pregethwr, llenor, bardd, beirniad, arweinydd, trefnydd, pwyllgorddyn ac, wrth gwrs, ysgolfeistr delfrydol a chwmnïwr diddan. Yr oedd John yn bob un o'r rhain, a rhagor, a chyflawnodd y cyfan gyda thrylwyredd a gwên ar ei wyneb. Ni fedrodd John ddweud "Na" wrth neb – pregethwr wedi torri ei gyhoeddiad yn un o gapeli bychain diarffordd Llŷn; beirniad wedi'i gymryd yn wael y noson cyn yr eisteddfod; clwb ieuenctid angen rhywun i drefnu noson o gystadlaethau – i'r adwy bob tro yn ddirwgnach, ac yn aml iawn yn ddi-dâl (o'i ddewis ei hun) fe ddôi John Morris. Mae ei gymwynasgarwch a'i barodrwydd cymdeithasol yn aros yn gofadail dragwyddol iddo yng ngwlad Llŷn ac yn wir tu draw i'r penrhyn hefyd.

Parhaodd John yn uchel ei barch a'i edmygedd yn y fro hon, a theimlai yntau hi'n fraint o fod yn un o hogia bro'r chwareli. Glynodd yn dyn wrth fagwrfa freintiedig ar yr aelwyd ym Melinfryn, Brynrefail. Yno, gwrandawai John yn astud ar ei dad, William Morris, yn ein hatgoffa ni yr ifanc am aberth a brwydrau cymdeithasol hen chwarelwyr Chwarel Dinorwig. Yno y plannwyd hadau sosialaeth ddi-ildio John Morris. Bryd hynny hefyd y daeth yn ymwybodol o gariad dwfn at Gymru a'r iaith.

Edrychwn ymlaen fel chwithau am yr erthygl y bwriadai ei hysgrifennu i 'Eco'r Wyddfa' ar rai o'i atgofion o'r fro hon. Ond wrth wrando ar gân Hogia'r Wyddfa i 'bentref bach Llanbêr' cawn sylweddoli o hyd fod ôl ei droed ar yr hen lwybrau yma o hyd.

Yn naturiol, fe ddaw myrdd o atgofion i'r cof o'r 'dyddiau dedwydd gynt' wedi i ni ddychwelyd o'r Lluoedd Arfog wedi'r rhyfel – y seiadau hwyrol hynny ar bont Penllyn – John oedd asgellwr de tîm pêl-droed Brynrefail yn erbyn Deiniolen yng ngêm derfynol yr hen gystadlaethau "Knock Out" yn Llanberis yn y pum-degau (a'r reffarî Richard Jones – tad golygydd yr 'Eco' – yn rhoi'r penalti bythgofiadwy i ennill y gêm a'r cwpan i Ddeiniolen) – Eisteddfodau Cenedlaethol dirifedi.

Ysgrifennaf hyn o deyrnged yn y gadair yr eisteddai John ynddi dair noson cyn ei farwolaeth. O'm blaen mae darlun o'r Wyddfa wedi ei dynnu o lechweddau'r Fachwen, gydag adfeilion y Felinfargod yn cysgu ar lan y llyn – y fan lle ganwyd fy nhad yn ogystal. Mewn cyfnod byr o bedwar mis mae yntau a John Morris wedi mynd. O edrych ar y darlun ar y mur sylweddolaf mai dyma'r union olygfa – yn wir yr olygfa gyntaf – a gafodd y ddau ohonynt o fro eu mebyd. Er i John Morris ymfudo o'r fro honno, gwn iddo ddal i'w gwarchod – "Nid rhyfedd, canys y mae'r fan a roes / Ein cychwyn gyda'n gilydd yn parhau / Ynglŷn wrth ein crwydriadau...."

Mae cydymdeimlad bro gyfan â'i briod Cissie, ei fab Dylan, a'i chwaer Ceinwen, a'r teulu oll yn eu profedigaeth fawr a'u hiraeth dwys.

Fel Tom Nefyn gynt –
"Ac o'i bregethau i gyd
Y fwyaf oedd ei fywyd".

**Aeth i'w ro gawr athrawon –**
**gwyro sant**
**Dan groes wen yr awron;**
**Gosteg Duw o gastiog don,**
**I lawr egwyl o'r eigion.**

**Rhoi ei ddawn i ddaear ddu –**
**hynawsedd**
**Cymwynaswr obry,**
**Rhoi mynor ar yfory,**
**A garw fedd i'r gorau fu.**

*Meirion Hughes.*

10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

*Ffôn: Llanberis 491*

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

Y Fachwen,
Porthaethwy.

Annwyl Ffrindiau,

Ar ran teulu Tŷ'r Ysgol, Aberdaron, ein modryb ac ewythr yn Neiniolen, ninnau yma yn y Borth ac yn wir y teulu i gyd, carwn, ddiolch i bobl ardal *Eco'r Wyddfa* am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atom yn ein profedigaeth o golli John.

Bu'r gymdogaeth dda yma a'r caredigrwydd di-ball yn gynhaliaeth werthfawr i ni yn ein gofid.

Roedd John, fel minnau, yn meddwl y byd o ardal ei wreiddiau, ac fe dynnodd faeth drwy'r blynyddoedd o'i fagwraeth yng nghadernid bro'r chwareli.

Yn ddiffuant,
Ceinwen.

# CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR Rhaglen 1977-78

Gellir ymaelodi mewn dosbarth yn y cyfarfod cyntaf, yr ail neu'r trydydd. Hanner y tâl a godir ar bensiynwyr. Am wybodaeth pellach, anfoner at yr Athro-Drefnydd: **Dr. Eirwen Gwynn, Tyddyn Rhuddallt, Llanrug. Caernarfon 3505.**

Dynodir dosbarthiadau a gynhelir ar y cyd efo Adran Allanol, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor fel hyn*

**BETHEL: Hanes Cymru. Mr. Geraint James, BA.** Nosweithiau Mawrth am 7.30 yn yr Ysgol Gynradd. 5 darlith yn dechrau Hydref 25. Tâl: £1.00.
**BRYNREFAIL: Y Traddodiad Gwerinol mewn Cerdd a Chân. Mr. Cledwyn Jones, BA.** Nosweithiau Mercher am 7.30 yn Ysgoldy Capel Brynrefail. 10 darlith yn dechrau Medi 28. Tâl: £2.
**CAERNARFON: Hanes Lleol. Mr. Bryn Rees Parry, MA.** Nosweithiau Llun am 7.30 yn Ysgol Segontium. 10 darlith yn dechrau Medi 26. Tâl: £2.

**Y Cynganeddion. Mr. Gerallt Lloyd Owen.** Nosweithiau Gwener am 7.30 yn Ysgol Gynradd Maesincla. 10 darlith yn dechrau Medi 30. Tâl: £2.
**DEINIOLEN: Y Byd yn yr Ugeinfed Ganrif. Mr. Emyr Price, BA.** Nosweithiau Mawrth am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd. 10 darlith yn dechrau Medi 20. Tâl: £2.
**LLANBERIS: Byd Natur. Mrs. Mary Vaughan Jones, BSc.** Nosweithiau Iau, ac eithrio'r bedwaredd yn y mis am 7.30 yn yr Ysgol Gynradd. 5 darlith yn dechrau Hydref 27. Tâl: £1.

**Art Appreciation. Mrs. B. Mansel Owen ATD.** Mondays at 7.00 p.m. at the Primary School. 10 lectures beginning September 26. Fee: £2.00.
**LLANRUG: *Problemau Cymdeithasol a Gwleidyddol Cyfoes. Dr. Cyril Parry.** Nosweithiau Llun am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd. 20 darlith yn dechrau Medi 19. Tâl: £3.00.
**PENYPASS (Llanberis): Art and Science in Mountain Photography. Mr. Phillip Evans.** Mondays at 7.45 p.m. at the Youth Hostel. 5 lectures beginning October 31. Fee: £1.00.
**WAUNFAWR: Hanes Lleol. Mr. Rhodri Prys Jones, BA.** Nosweithiau Llun am 7.15 yn yr Ysgol Gynradd. 5 darlith, Hydref 10, 31, ac wedyn bob yn ail wythnos. Tâl: £1.00.

**Art Appreciation. Mrs. B. Mansel Owen.** Fridays at 7.00 p.m. at the Primary School. 10 lectures beginning September 30. Fee: £2.00.

# DINORWIG




**TIM PEL–DROED DINORWIG 1912–13.**

*Pwy o ddarllenwyr yr* Eco *fedr enwi'r aelodau uchod o dîm pêl-droed Dinorwig, 1912–13. Byddai'n ddiddorol cael crynodeb o hanes y tîm o'i gychwyniad hyd derfyn ei rawd.*

**LAMPAU NEWYDD** – Da gweld gwelliant yn y lampau cyhoeddus ar hyd ffordd Dinorwig. Diolch i Gymdeithas Cymuned Llanddeiniolen am eu gweithgarwch yn y mater.

**CARNIFAL JIWBILI** – Yn ystod y mis rhannwyd Coronau Arian i'r plant i ddathlu Jiwbili'r Frenhines. Gwnaed y gwaith gan nifer o chwiorydd yr ardal.

**COFION A GWAELEDD** – Anfonwn ein cofion at Mr. John D. Williams, Ty'n Fawnog Uchaf, sydd yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon, er peth amser yn ceisio adferiad iechyd. Gwellhad buan fo iddo. Da gennym ddeall fod amryw o'r ardal fu'n cwyno'n ddiweddar yn gwella'n raddol. Parhaed y gwellhad.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Mr. R.H. Thomas, Creigle, ar ei lwyddiant gyda'r ieir 'Wyandotte' a 'Bantam' yn Sioe Amaethyddol Môn eleni.

Hefyd i Mr. Glyn Thomas, 7 Bro Elidir ar ennill ohono radd BA ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Bwriada fynd am gwrs addysgol pellach i'w gymhwyso i'r weinidogaeth gyda'r Eglwys yng Nghymru.

Llongyferchir Mr. John Eryl Roberts, 3 Maes Eilian ar ei lwyddiant yn Arholiadau Lefel 'A'.

**MARW** – Dydd Mawrth, Awst 23ain yn ei chartref 7, Bro Elidir, bu farw Mrs. M.J. Jones. Cydymdeimlir â'i phriod Mr. H.L. Jones, ei merched Mrs. Matilda Roberts a Miss Marian Jones, ei ŵyr a'i wyres, a'r cysylltiadau teuluol.

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE

Cwm-y-glo

*

Ffôn : LLANBERIS 814

*

GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR

# Cadw Gwenyn

**gan Islwyn Williams, Godre'r Coed, Brynrefail**

### TRIGOLION Y CWCH (Parhad)

**WEDI sôn ychydig am y Frenhines, (y fenyw berffaith a'r gweithwyr, (y benywod amherffaith), buddiol fyddai trafod y gweddill o'r teulu, sef y gwenyn segur – y gwenyn gwryw.**

**Yn nechrau'r gwanwyn, bydd y gweithwyr yn mynd ati o ddifrif i gasglu neithdar o'r blodau cynnar, ac yna daw'r awydd arnynt i weithio fel teulu unwaith yn rhagor. Wedi diogelu digon o fwyd ânt ati i adeiladu celloedd – rhai mwy na'r cyffredin, ac anogant y frenhines i ddodwy wyau ynddynt ac o ganlyniad megir gwenyn segur.**

Nid ydyw'r gweithwyr yn adeiladu llawer iawn o'r celloedd mawr hyn gan eu bod am gadw rhif y gwenyn segur o gwmpas tri i bedwar cant. Bydd rhai gwenwynwyr yn gofalu torri ymaith rhai celloedd i'w lleihau i tua dau gant, gan nad yw'r gwenyn segur yn gweithio, ond yn hytrach yn mynd o gwmpas y cwch i fwyta'r mêl a storiwyd gan y gweithwyr. Ni fyddai'n deg disgrifio'r gwenyn segur fel rhai diog; ni allant weithio am nad yw eu cyrff wedi eu ffurfio i gario neithdar. Eu hunig swyddogaeth yn y cwch yw ffrwythloni breninesau. Er fod ganddynt fwy o sŵn wrth hedfan na'r gwenyn eraill, nid rhaid eu hofni gan na allant bigo. Nid ydynt wedi eu breintio â cholyn.

Tua diwedd yr haf i ddechrau'r hydref, nid oes bwrpas i gael gwenyn segur yn y cwch. Felly, â'r gweithwyr ati o ddifrif i'w taflu allan o'r cwch yn ddidostur. Edrych pob gwenwynwr ymlaen am weld y lladdfa flynyddol hon, gan y dengys iddo fod popeth mewn trefn yn y tŷ ac fod gan y gwenyn frenhines foddhaol. Os na fydd y lladdfa yma yn digwydd ar ddiwedd yr haf, gŵyr y profiadol fod y frenhines am ryw reswm wedi ei lladd neu fod yna frenhines anffrwythlon yn trigo yn y cwch.

Y mae'r dull o ddileu'r gwenyn segur yn ddiddorol iawn. Yn gyntaf mae'r gweithwyr yn gwrthod rhoi bwyd iddynt. Er y gallant borthi eu hunain, mae'n well ganddynt gael eu bwydo gan eu chwiorydd – nid yn unig eu bwydo â mêl ond gyda'r llefrith arbennig a ddefnyddir i fwydo'r frenhines. Pan mae'r gwenyn segur yn cael eu hamddifadu o'u bwyd, yn naturiol maent yn gwanhau. Er eu bod yn ceisio dal eu nerth i fyny drwy fynd i'r celloedd i geisio mêl, mae'r gweithwyr yn benderfynol o'u tynnu oddi wrthynt. Unwaith maent wedi llwyr ddiffygio, gall y gweithwyr eu llusgo allan o'r cwch. Os bydd rhai ohonynt yn gryfach na'i gilydd, bydd y gweithwyr yn brathu ymaith eu hadenydd ac yna eu llusgo allan. Wedi eu hamddifadu o'u horganau angenrheidiol, maent yn marw'n fuan.

### GREDDF DYCHWELYD

Gofala'r gwenyn eu bod yn nodi'n fanwl leoliad eu cwch trwy raddoli pellter eu crwydriadau o gyffiniau eu cartref. Pe symudid y cwch ond ychydig droedfeddi o'i fan gwreiddiol, ni châi'r gwenyn fyddai allan yn y maes yn casglu fyth hyd iddo wrth ddychwelyd. Os bydd rhaid, am unrhyw reswm, i'r gwenynwr orfod symud y cwch, rhaid ei symud yn wysg ei ochr bellter prin ar y tro. Os na chyflawna'r gorchwyl yn y dull hwn, bydd ei golled yn anfesuradwy.

(i'w barhau)



**Haid o wenyn wedi [illegible] ar gangen yng ngardd un o weithwyr yr Eco. Beth ddylid ei wneud â'r rhain Mr. Islwyn Williams?**

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO ...............


*Eric Morris*



Bwsiau Arfon LLANRUG

FFÔN WAUNFAWR 254

# Croesair 16



ENW.......................................................................

CYFEIRIAD................................................................

.................................................................................

*Dychweler i Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.*

**AR DRAWS:**

1. Un ar grwydr – yn ôl y Beibl (7)
2. "Mae'r ... bach yn gwasgu<br>Mewn man nas gwyddoch chwi." (5)
8. Bara gwyrthiol yr anialwch (5)
9. Llecyn agored – wedi ei dreiglo (7)
10. Llawen (3)
12. "Dau yn unig oedd yn y ...<br>Sammy Rose Bank a Ned Tŷ Glas" TRH (3)
13. Enw merch yn y Beibl (3)
14. Llesmeirio (6)
15. Moelni (6)
18. "Y ... Gymreig" (3)
19. Cae (3)
20. "Arglwydd ... i'm bellach gysgu<br>Trosi rwyf ers oriau du".<br>Cynan (3)
22. Gradd eithaf (7)
23. Offeiriad a gofal plwyf (5)
25. Gormesol (5)
26. Un sy'n gweithredu dros arall (7)

**I LAWR:**

1. Perswadio, annog (5)
2. Eglwys (3)
3. Gall hwn fod yn finiog weithiau! (7)
4. Hiraethu (6)
5. Y noson cyn neithiwr (5)
6. Un sy'n gofalu am weinyddiaeth gwladol (9)
7. Un sy'n gwatwar (7)
11. Cymorth (9)
14. Canolfan llyfrau (7)
16. "Pan geuai syrthni safnau'r cŵn<br>Nosâi ... yn eu sŵn" RWP (7)
17. Salwch (6)
19. Dewis (5)
21. Cosb ariannol (5)
24. Mintai o gantorion (3)

Cyfrir y llythrennau canlynol fel UN llythyren:
CH; DD; FF; NG; LL; PH; RH; TH.

Gwobr o £1 i'r ateb cyntaf cywir a dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i law.

Enillydd croesair rhif 15: **Mrs. Olwen Jones, 12. Bro Rhos, Bethel.**

# AR WERTH

Ffrâm drws (standard) pren – fel newydd
2 Siaced Achub (Life Jacket) i blant 4–5 stôn. Fel newydd £3 yr un.
Ffôn: Caernarfon 3719.

Lobster pot playpen – £5. Porter, 4 Bron y Waun, Penisarwaun.

Cottage Three Piece. 2 set o gyfars £2. 12 Rhes y Faenol, Llanberis.

Beic 'Chopper'. Ffôn: Llanberis 533.

2 drwsus – 1 'check' llwyd/gwyn, mesurau 30"/29½" (coes). ac 1 "ffôn", mesurau 30"/31", y ddau o ddefnydd 'terylene/wool'–£3 yr un Ffôn: Padarn 288.

# YN EISIAU

Set o hen lestri pren helyg (willow pattern) neu gyffelyb i ddresel Gymreig; Llanberis 665.

Nid yw'n costio dim i hysbysebu yn 'Ar Werth' ac 'Yn Eisiau'. Ffoniwch Llanberis 220

# Dyddiadur y Mis

**Dydd Iau, Medi 1: DEINIOLEN;** Cyfarfod y Chwiorydd, Capel Disgwylfa. **WAUNFAWR:** Sefydliad y Merched yn cyfarfod yng nghwmni Mr. Rhodri Prys Jones.

**MEDI 2: LLANRUG:** Helfa Drysor dan nawdd Pwyllgor Merched y Seindorf. **LLANBERIS:** Clwb yr Henoed yn dechrau tymor newydd. **WAUNFAWR:** 'Cadw'n Heini'. Cyfarfod agored i ferched am 7.30 yn Neuadd yr Eglwys.

**MEDI 3. BRYNREFAIL:** Gemau Giamocs yn y cae chwarae newydd am 1 o'r gloch. Helfa Drysor i gychwyn am 7 o'r gloch. **LLANBERIS:** Disco yn y Ganolfan am 7.30 gyda 'Sonic System Two'. Yr elw er budd yr NSPCC. **LLANRUG:** Taith Gerdded Llwybrau Cyhoeddus dan nawdd Pwyllgor Cronfa Rigarug.

**MEDI 4: DEINIOLEN:** Cymanfa Ganu yng Nghapel Ebeneser (A) am 8 dan arweiniad Mr. Irfon Ellis, Llanberis. Yr elw tuag at Gronfa Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979. **LLANBERIS:** Canu Mawl yn Eglwys St. Padarn am 8.30 gyda Parti Glynrhonwy, Seindorf Llanberis, Cantorion o Fon a Miss Einir Wyn Owen.

**MEDI 5: LLANBERIS:** Clwb Methedig Eryri yn dechrau tymor newydd yn y Ganolfan am 2.00. Mr. Dafydd Wigley A.S. yn cynnal Cymorthfa yn Festri Gorffwysfa. (I drefnu cyfweliad ffoniwch C'fon 2076)

**MEDI 6:** Gwasanaeth Sefydlu y Parch John Owen, cyn-weinidog Eglwysi MC Llanberis a Nant Peris yn Rhuthun. **WAUNFAWR:** Cyngor Cymdeithas.

**MEDI 7: WAUNFAWR:** Cyfeisteddfod Chwiorydd Arfon yng Nghapel Bethel am 2 a 5.30.

**MEDI 8: LLANBERIS:** Disco dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Ganolfan am 7 gyda 'Sonic System Two' **LLANRUG:** Pwyllgor Cronfa Rigarug yn Festri Capel Mawr am 7.30.

**MEDI 9: BETHEL:** Noson Moes a Phryn yn Festri Capel Bethel. Yr elw er budd y Capel. **WAUNFAWR:** Noson Goffi yn Festri Capel Croesywaun am 6.30. Yr elw at yr achos. **DEINIOLEN:** Sefydliad y Merched – Taith Ddirgel. Trip ar dren fach Llyn Padarn i bensiynwyr y fro am 12, 1, 2, 3, a 4 o'r gloch yn rhad ac am ddim. **DINORWIG:** Cyffro Medi gyda 'Tocyn Chwech' a Disco'r Graig dan nawdd Mudiad Adfer yng Nghanolfan Gymdeithasol Dinorwig am 7.30. Yr elw at Gronfa'r Eisteddfod Genedlaethol.

**MEDI 10: LLANRUG:** Ffair Sborion yn 'Feed My Lambs', Caernarfon dan nawdd Pwyllgor Merched y Seindorf.

**MEDI 11: DEINIOLEN:** Cyfarfod Pregethu Eglwys Libanus, Clwt-y-bont am 10, 2 a 5 o'r gloch. Pregethir gan y Parch T.G.Morgan, Llanelli.

**MEDI 12: LLANBERIS:** Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2.

**MEDI 13: LLANRUG:** Merched y Wawr yn dechrau tymor newydd yn yr Ysgol Gynradd pryd y disgwylir cael cwmni Parti Dawnsio Gwerin Aelwyd Caernarfon. **WAUNFAWR:** Pwyllgor Lleol Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979 yn yr ysgol am 7.30.

**MEDI 14: LLANBERIS:** Bingo dan nawdd Cangen Blaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.

**MEDI 16: LLANBERIS:** Clwb yr Henoed yn y Ganolfan.

**MEDI 19: BETHEL:** Cyfarfod Presbyteriaid M.C. Arfon yng Nghapel Cysegr. **LLANBERIS:** Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30. **LLANRUG:** Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7 – cyfres o 20 darlith gan Dr. Cyril Parry ar y testun 'Problemau Cymdeithasol a Gwleidyddol Cyfoes'.

**MEDI 20: DEINIOLEN:** Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7. Cyfres o 10 darlith gan Mr. Emyr Price B.A. ar y testun 'Y Byd yn yr Ugeinfed Ganrif'.

**MEDI 21: LLANBERIS:** Clwb y Mamau yn dechrau tymor newydd gyda chyfarfod cyffredinol yn y Ganolfan am 7.30. **CWM-Y-GLO:** Merched y Wawr yn dechrau tymor newydd pryd y ceir darlith gan Miss Mat Pritchard.

**MEDI 22:WAUNFAWR:** Merched y Wawr yn dechrau tymor newydd yng nghwmni John Ogwen a Maureen Rhys

**MEDI 23: DEINIOLEN:** Clwb Snwcer yn cyfarfod pryd y bydd Mr. Rex Williams, Pencampwr y Byd, yn ymweld a'r Clwb. **DINORWIG:** Sos Coch (grwp trydanol o Gaernarfon) a Disco'r Graig dan nawdd Cangen Dinorwig o Fudiad Adfer yng Nghanolfan Gymdeithasol Dinorwig am 7. 30. Mynediad 30c, Yr elw at Gronfa'r Eisteddfod Genedlaethol.

**MEDI 26: LLANBERIS:** Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Peldroed yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7 – cyfres o 10 darlith gan Mrs. B. Mansel Owen ar 'Gwerthfawrogi Celfyddyd'. **LLANRUG:** Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7. **PENISARWAUN** Mr. Dafydd Wigley A.S. yn cynnal Cymorthfa. (Ffoniwch C'fon 2076 i drefnu cyfweliad).

**MEDI 27: PENISARWAUN:** Clwb yr Heulwen yn cyfarfod. **DEINIOLEN:** Dosbarth WEA yn yr Ysgol am 7.

**MEDI 28: LLANBERIS:** Bingo dan nawdd y Gangen Blaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. **BRYNREFAIL:** Dosbarth WEA yn Festri'r Capel am 7.30 – cyfres o 10 darlith gan Mr. Cledwyn Jones B.A. ar y testun 'Y Traddodiad Gwerinol mewn Cerdd a Chan'.

**MEDI 29: LLANBERIS:** Sefydliad y Merched yn y Ganolfan am 7 pryd y ceir Arddangosiad Coginio gan MANWEB.

**MEDI 30: LLANBERIS:** Clwb yr Henoed yn y Ganolfan. Noson Goffi ynghyd a Moes a Phryn yn Festri Preswylfa am 6.30. Yr elw tuag at Gronfa'r Capel. **WAUNFAWR:** Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7. Cyfres o 10 gwers gan Mrs. B. Mansel Owen ar 'Gwerthfawrogi Celfyddyd'.

## DYDDIADAU I'W COFIO

**Hydref 12 :** Noson Goffi yn Ysgol Brynrefail gyda byrddau gwerthu, arddangosfa arlunio ac ymarfer corff. Bydd Mrs. Mrs. Menna Williams yn agor y noson.

**Hydref 14 – 23 :** Wythnos Ddathlu Dauganmlwyddiant Capel Coch, Llanberis. Hydref 14: Te Parti i'r plant; Hydref 16: Gwasanaethir gan y Parch. J. Alwyn Parry; Hydref 17: Dydd Diolchgarwch – cyfarfod gweddiau; Hydref 18: Cyfarfod y Dathlu; Hydref 19: Pregeth gan y Parch. Meirion Lloyd Davies, Pwllheli; Hydref 23: Cymanfa Ganu yng nghwmni Cor y Penrhyn am 7.30; Hydref 24: Cymdeithas Lenyddol Capeli M.C. Llanberis yn dechrau tymor newydd yn Festri Capel Coch am 7.15.

**Tachwedd 10 - 11:** Eisteddfod Gadeiriol Bethel.


**AR WERTH**

**GORFFWYSFA**
**9 TAI GWELEDFA**
**DEINIOLEN**
**Ffonier:**
**BETHESDA 600423**

# CHWARAEON

## GEMAU GIAMOCS

**'Does dim amheuaeth mai un o gystadleuthau mwyaf diddorol holl garnifalau'r ardal yn ystod y misoedd diwethaf oedd Gemau Giamocs Llanberis.**

**Bu'n gyfrwng i ddod â thimau o bump pentref ynghyd, a bu cystadlu brwd am dlws *Eco'r Wyddfa* — cystadlu o'r math nas profwyd ei debyg gan y mwyafrif o'r chwaraewyr o'r blaen.**

**Bu hir ryfeddu at ddychymyg trefnwyr y gemau. Ar ôl i'r timau fod yn cario dŵr ar eu pennau, neidio ar swigan gwynt a chael eu peintio gan ddyn dall, i enwi ond ychydig o'r profion, tîm Deiniolen fu'n fuddugol.**



*Enillwyr Tlws Eco'r Wyddfa yn y Gemau Giamocs. Yn sefyll: M. Roberts, S. Owen, M.L.Jones, M. Roberts, E. Williams, B. Thomas, D. Roberts. Blaen: J. Wardle, S. Jones, C. Davies, H. Williams, J. Owen, H. Hughes. (Llun: E. Davies).*

# Pêl-droed 1977-78

## LLANBERIS

**Tymor 1977 / 78**

Mae'n siwr nad oedd cefnogwyr Llanberis yn edrych ymlaen gyda llawer o obaith am y tymor newydd, gan nad oedd wynebau newydd yn ymddangos yn y garfan. Ond 'roedd Selwyn Allsup, y rheolwr, yn ddigon ffyddiog, ac yn wir, mae'r gemau cyn-dymor a'r tair gêm gyntaf wedi dangos ei fod ar y llinellau cywir.

Ers tro bu rhai cefnogwyr yn galw am roi cyfle i fechgyn ifanc lleol. Mae Selwyn yn barod i wneud hyn, ond iddynt ddangos egni a diddordeb llwyr mewn chwarae i Lanberis.

Yn y gemau cyn-dymor fe enillwyd gartre' o 4 gôl i 1 yn erbyn Rhos Aelwyd, ac o 2 gôl i 1 i ffwrdd yn erbyn Pentraeth.

Mae yna gymysgedd da o chwaraewyr ifanc a rhai hŷn a phrofiadol fel y rheolwr ei hun, — Gwilym Williams, sydd cystal ag y bu erioed, a Ray Harding, yna'r capten Kelvin Jones. Y rhai ifanc fydd yn disgleirio eleni yw Iwan Evans (18 oed), Gareth Williams (17 oed), Eifion Jones (16 oed) a Gwyndaf Jones (15 oed).

Fe fydd y tîm yn colli gwasanaeth bechgyn coleg fel Emyr Roberts a Kevin Davies, sydd wedi chwarae gemau ardderchog yng nghanol y cae, ond mae Selwyn yn ffyddiog fod y bechgyn sydd ganddo yn ddigon da i ennill tlws neu gwpan, ac yn sicr o roi boddhad i gefnogwyr 'Y Darans'

Dyma ganlyniad y gêm gyntaf: Llanberis 10 — Cricieth 1. Er gwaethaf y gurfa yma, ni fydd Cricieth ar waelod y gynghrair ar ddiwedd y tymor. 4 - 0 oedd hi yn yr hanner cyntaf. Dyma'r sgorwyr: Iwan Evans (3), Ray Harding (2), Kevin Davies, Gwilym Williams, Gwyndaf Jones ac Eifion Jones.

**BANGOR ATHLETIC 0 LLANBERIS 3**

'Roedd Llanberis yn disgwyl gêm galed yma, ac felly y bu hi. Ymddangosodd Gwilym Williams rhwng y pyst am y tro cyntaf ac 'roedd ei brofiad yn amlwg yn dylanwadu ar y bechgyn o'i flaen. Sgoriodd Ray Harding gyda chic o tua ugain medr i roi Llanberis ar y blaen cyn yr egwyl. Anafwyd Eifion Jones ar ddechrau'r ail hanner a bu raid i Lanberis frwydro gyda deg dyn am weddill y gêm, gan iddynt eisoes ddefnyddio'u heilydd. Dangoswyd ysbryd ardderchog gan y 'deg dyn' a sgoriwyd dwy gôl arall gan Gwilym Williams ac Iwan Evans i ennill buddugoliaeth dda iawn.

## LLANRUG

**Tymor 1977-78**

**Mae 14 o chwaraewyr wedi arwyddo i'r clwb ar gyfer y tymor hwn, rhai ohonynt yn hen chwaraewyr i'r clwb, ac eraill yn ddieithr i'r tîm ond nid i'r pentref.**

**Dyma rai ohonynt.** *Gôl:* Nigel Hardwidge o Fethel (3ydd tymor) *Cefnwyr:* Dafydd Horman ac A. Vincent Owen (Llanrug), Hugh Hughes a Ken Jones (Caernarfon) a Howyn Jones (rheolwr). *Canol y Cae:* Gwynfor Owen (Llanrug), cyn-chwaraewr gyda Phwllheli; Len Padmore (Llanberis), cyn-chwaraewr gyda Mt. Rangers. *Blaenwyr:* Hefin Pritchard (Llanrug), A. Price (Rhiwlas), Barrie Pitts (Llanberis), cyn-chwaraewr gyda Llanberis; Dic Owen (Llangefni), cyn-chwaraewr gyda Llandegfan, ond cysylltiadau agos â'r pentref ganddo; Hefin Jones (Llan rug), cyn-chwaraewr gyda Phwllheli.

Yn ystod y mis diwethaf bu'r cwbl ohonynt yn ymarfer un ai ar nos Fawrth neu nos Iau ar gae Eithin Duon. Bu ambell un yn tuchan a grwgnach, ond bu'r ymarfer caled yn gymorth i'w paratoi ar gyfer gemau cyntaf eithaf anodd.

**LLANRUG 5 HARLECH 3**

Aeth Harlech ar y blaen o fewn y pum munud cyntaf, a phawb wedi synnu fod safon chwarae Harlwch gymaint yn well na llynedd. Ni fu Llanrug yn hir cyn dod dros y sioc, ac erbyn yr egwyl 'roeddynt ar y blaen o dair gôl. Yn yr ail hanner, aethant ymhellach ar y blaen, ond 'doedd Harlech ddim wedi darfod chwaith, a balch oedd pawb o'r tîm o weld diwedd y gêm gyda Llanrug yn ennill o 5 - 3. Y sgorwyr oedd Hefin Jones, Howyn Jones (penalti), Parrie Pitts (2) a Dic Owen.

**LLANRUG 3 LLANBERIS 3**

Llanberis, yr hen elyn, oedd yr ymwelwyr nos Fawrth 23ain, ac unwaith eto, 'roedd Llanrug yn colli o un gôl ar ôl y trydydd munud — Gwilym Williams yn rhoi Llanber ar y blaen. Ond gwnaed y gêm yn gyfartal o fewn ychydig funudau gan Hefin Jones gyda chic gosb o'r tu allan i'r bocs. Ond aeth Llanberis ar y blaen unwaith eto, a Gwilym Williams yn sgorio ei ail gôl. Buan y daeth Llanrug yn ôl, a Barrie Pitts, un o gyn-chwaraewyr Llanberis, yn taro dwy gôl i'r rhwyd i roi Llanrug ar y blaen o 3 gôl i 2. Ychydig cyn yr egwyl, cafodd Llanberis gic gosb, ac o'r smotyn gwyn, gwnaeth Ray Harding y gêm yn gyfartal unwaith eto. Ni fu'r ail hanner mor gyffrous â'r cyntaf, a gweddol gyfartal fu'r chwarae ar y cyfan — Nigel Hardwidge, Llanrug yn byseddu cic galed gan S. Allsup dros y bar, a John Roberts, Llanberis yn sglefrio i'r gongl i ddal cic gan Gwynfor Owen. Llanrug gafodd y cynnig gorau i ennill y gêm pan enillwyd cic gosb ganddynt, ond aeth cic Howyn Jones o'r smotyn gwyn dros y bar.

**LLANRUG 3 BETHESDA 1**

Ennill eto oedd hanes Llanrug, ond gêm heb fawr o sbarc ynddi. Gêm gyfartal yn yr hanner cyntaf, gyda Ken Jones yn rhoi Llanrug ar y blaen, ond Aled Hughes (o Fethel) yn ei gwneud yn gyfartal cyn yr egwyl. Yn yr ail hanner, enillwyd y gêm i Lanrug gan Hefin Pritchard a Barrie Pitts.

Dechrau addawol i'r tymor i Lanrug — 5 pwynt allan o 6, gan sgorio 11 gôl, ond mae angen gwell dealltwriaeth yn y cefn, oherwydd mae'r cefnwyr yn ddigon profiadol i beidio â gadael 7 gôl heibio iddynt mewn 3 gêm.

### PELDROEDIWR Y TYMOR



*Tymor digon aflwyddiannus fu'r diwethaf i dîm pêl-droed dan 15eg oed Bethel, sy'n chwarae yng Nghynghrair Gwyrfai, ond enillwyd tlws hardd gan un o'u chwaraewyr serch hynny.*

*Mae'r tlws yn rhodd gan Mr. Robert Jennens, y Gors Bach, er cof am Mrs. H. Jones, ac fe'i cyflwynir i chwaraewr gorau'r tîm ar ddiwedd pob tymor.*

*Roger Jones yw'r enillydd cyntaf, ac yn y darlun gwelir Mr. Jennens yn trosglwyddo'r cwpan iddo, a Mr. John Pritchard, rheolwr y tîm yn eu gwylio.*

## Dartiau



**Enillwyr Cystadleuaeth Dartiau wythnos Garnifal Llanberis. O'r chwith i'r dde: Gwyn Williams, Pencampwr; Ceinwen Williams, Pencampwraig; Joe Kelly, y sgôr uchaf.**

### NEWYDDION DIWEDDAR

**LLANRUG**

**ENNILL GRADD** — Llongyfarchiadau i Rhion Thomas, mab Mr a Mrs R.O. Thomas, Gerallt ar ennill gradd B.A. (Anrhydedd) mewn Cyfrifeg a Gweinyddiad Ariannol yng Ngholeg y Brifysgol Bangor. Ein dymuniadau gorau iddo yn ei swydd fel cyfrifydd i Gyngor Sir Morgannwg Ganol.

**LLONGYFARCHIADAU** i Mrs. Catrin Roberts, Tŷ Capel ar gael ei phenodi yn athrawes Ffrangeg yn Ysgol Uwchradd Aberconwy.

**CYDYMDEIMLAD** — Trist oedd clywed am farwolaeth Mr. Arthur E. Owen, Crug a Mrs. Evans, 9 Rhos Rug. Cydymdeimlwn â'r teuluoedd yn eu galar.

**LLANBERIS**

**CROESO** — Balch ydym o groesawu i'n plith am seibiant o Awstralia John Closs, mab Mrs. E. Closs, Rhes Minafon Llanberis a Chwmeillr Uchaf gynt. Gadawodd yr ardal bedair mlynedd ar ddeg yn ôl.